ystyr "tŷ" ("*house*") yw tŷ annedd cyfan neu lety hunangynhwysol y mae'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol fyw ynddo yn rhinwedd contract gwasanaeth y gweithiwr amaethyddol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau mewn modd priodol neu well ac mae'n cynnwys unrhyw ardd o fewn cwrtil y tŷ annedd neu'r llety hunangynhwysol hwnnw.

(2) Yn yr erthygl hon mae'r cyfeiriad at weithwyr amaethyddol a ddechreuodd eu cyflogaeth cyn 1 Hydref 2006 yn cynnwys gweithwyr amaethyddol—

(a) y mae telerau eu contract wedi bod yn destun unrhyw amrywiad ers hynny; neu

(b) sydd wedi eu cyflogi gan gyflogwr newydd ers hynny yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(**1**).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at gyfnod o gyflogaeth ddi-dor i'w dehongli fel cyfnod o gyflogaeth ddi-dor a gyfrifir yn unol ag adrannau 210 i 219 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**2**).

RHAN 2

Gweithwyr amaethyddol

Telerau ac amodau cyflogaeth

3. Mae cyflogaeth gweithiwr amaethyddol yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a nodir yn y Rhan hon ac yn Rhannau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn.

(**1**) O.S. 2006/246.

(**2**) 1996 p. 18. Diwygiwyd adran 211 gan Atodlen 8 i O.S. 2006/1031. Diwygiwyd adran 212 gan Atodlenni 4 a 9 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 26). Diwygiwyd adran 215 gan Atodlen 7 i Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, etc.) 1999 (p. 2). Diwygiwyd adran 219 gan Atodlen 15 i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Graddau a chategorïau gweithiwr amaethyddol

4. Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei gyflogi fel gweithiwr ar un o'r Graddau a bennir yn erthyglau 5 i 9 neu 10(1) neu fel prentis yn unol â'r darpariaethau yn erthygl 11.

Gradd 2

5. Rhaid i weithiwr amaethyddol—

(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo—

(i) un o'r dyfarniadau neu'r tystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 1;

(ii) un Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'w waith; neu

(iii) cymhwyster cyfatebol; neu

(b) y mae'n ofynnol iddo—

(i) gweithio heb oruchwyliaeth;

(ii) gweithio gydag anifeiliaid;

(iii) gweithio â pheiriannau pŵer; neu

(iv) gyrru tractor amaethyddol,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 2.

Gradd 3

6.—(1) Rhaid i weithiwr amaethyddol sydd wedi ei gyflogi mewn amaethyddiaeth am gyfnod agregedig o 2 flynedd o leiaf yn ystod y 5 mlynedd blaenorol ac—

(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo—

(i) un o'r dyfarniadau neu'r tystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 2;

(ii) un Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'w waith; neu

(iii) cymhwyster cyfatebol; neu

(b) sydd wedi ei ddynodi'n arweinydd tîm,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 3.

(2) At ddibenion yr erthygl hon, mae "arweinydd tîm" yn gyfrifol am arwain tîm o weithwyr amaethyddol ac am fonitro sut mae'r tîm yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan neu ar ran eu cyflogwr ond nid yw'n gyfrifol am faterion disgyblu.

Gradd 4

7. Rhaid i weithiwr amaethyddol—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo gyfanswm o 8 cymhwyster sydd naill ai—

(i) yn ddyfarniadau neu dystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 1;

(ii) yn Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'w waith; neu

(iii) yn gymwysterau cyfatebol; neu

(b) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod ganddo 1 o'r dyfarniadau neu dystysgrifau cymhwysedd a restrir yn y tablau yn Atodlen 3 neu gymhwyster cyfatebol; ac

(c) sydd naill ai—

(i) wedi ei gyflogi mewn amaethyddiaeth am gyfnod agregedig o 2 flynedd o leiaf yn ystod y 5 mlynedd diwethaf; neu

(ii) wedi ei gyflogi'n ddi-dor am gyfnod o 12 mis neu ragor o leiaf gan yr un cyflogwr ers ennill y cymwysterau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) a (b),

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 4.

Gradd 5

8. Rhaid i weithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol iddo ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd—

(a) dros oruchwylio'r gwaith a gyflawnir ar ddaliad y cyflogwr;

(b) dros roi penderfyniadau rheoli ar waith; neu

(c) dros reoli staff,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 5.

Gradd 6

9. Rhaid i weithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol iddo ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli—

(a) dros ddaliad cyfan y cyflogwr;

(b) dros ran o ddaliad y cyflogwr a redir fel gweithrediad neu fusnes ar wahân; neu

(c) dros hurio a rheoli staff,

gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 6.

Datblygu Proffesiynol Parhaus

10.—(1) Rhaid i weithiwr amaethyddol na ellir ei gyflogi ar un o Raddau 2 i 6 yn unol â'r ddarpariaeth yn erthyglau 5 i 9 o'r Gorchymyn hwn ac nad yw'n brentis yn unol ag erthygl 11 gael ei gyflogi fel gweithiwr ar Radd 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae prentis sydd yn nhrydedd flwyddyn ac unrhyw flwyddyn olynol ei brentisiaeth i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau tâl isaf ac unrhyw delerau ac amodau eraill yn y Gorchymyn hwn sy'n gymwys i weithwyr amaethyddol a gyflogir ar Radd 2.

(3) Rhaid i weithiwr amaethyddol—

(a) cadw tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau a phrofiad a enillwyd ganddo sy'n berthnasol i'w gyflogaeth; a

(b) rhoi gwybod i'w gyflogwr os yw wedi ennill cymwysterau a phrofiad sy'n ei alluogi i gael ei gyflogi ar Radd wahanol.

Prentisiaid

11.—(1) Mae gweithiwr amaethyddol yn brentis sydd wedi ei gyflogi o dan brentisiaeth os yw'n cael ei gyflogi o dan naill ai contract prentisiaeth neu gytundeb prentisiaeth o fewn ystyr "apprenticeship agreement" yn adran 32 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), neu'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth;.

(2) Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth os yw wedi ei gymryd ymlaen yng Nghymru o dan drefniadau Llywodraeth o'r enw Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau neu Brentisiaethau Uwch.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "trefniadau Llywodraeth" yw trefniadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973(**2**) neu o dan adran 17B o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(**3**).

(**1**) 2009 p. 22.

(**2**) 1973 p. 50. Diwygiwyd adran 2 gan adran 25 o Ddeddf Cyflogaeth 1988 (p. 19) ac adran 47 o Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p. 19). Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 1995 p. 18. Diddymwyd adran 17B gan adran 147 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) a Rhan 4 o Atodlen 14 iddi. Mae'r diddymiad yn effeithiol at ddibenion penodol yn unol ag O.S. 2013/983, O.S. 2013/1511, O.S. 2013/2657, O.S. 2013/2846, O.S. 2014/209, O.S. 2014/1583, O.S. 2014/2321, O.S. 2014/3094, O.S. 2015/33, O.S. 2015/101, O.S. 2015/634, O.S. 2015/1537, O.S. 2015/1930, O.S. 2016/33 ac O.S. 2016/407.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

RHAN 3

Yr isafswm cyflog amaethyddol

Cyfraddau tâl isaf

12.—(1) Yn ddarostyngedig i weithrediad adran 1 o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(**1**), rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â'u gwaith yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol.

(2) Yr isafswm cyflog amaethyddol yw'r gyfradd isaf fesul awr a bennir yn y Tabl yn Atodlen 4 fel y gyfradd sy'n gymwys i bob gradd o weithiwr amaethyddol ac i brentisiaid.

Cyfraddau tâl isaf am oramser

13. Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â goramser a weithir yn ôl cyfradd nad yw'n llai nag 1.5 gwaith yr isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w gategori.

Cyfraddau tâl isaf am waith allbwn

14. Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â gwaith allbwn yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w gategori.

Lwfans gwrthbwyso llety

15.—(1) Pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am y cyfan o'r wythnos honno, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.50 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ar gyfer yr wythnos honno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £4.82 oddi ar isafswm cyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy o dan erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn am bob diwrnod yn yr wythnos y darperir y llety arall i'r gweithiwr.

(3) Dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir i'r didyniad ym mharagraff (2) gael ei wneud.

(**1**) 1998 p. 39.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) Rhaid i unrhyw amser yn ystod yr wythnos honno pan fo'r gweithiwr amaethyddol ar wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth gyfrif tuag at y 15 awr hynny.

Taliadau nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol

16. Nid yw'r lwfansau a'r taliadau a ganlyn yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol—

(a) lwfans cŵn o £8.17 y ci i'w dalu'n wythnosol pan fo'i gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gadw un neu ragor o gŵn;

(b) lwfans ar alwad o swm sy'n cyfateb i ddwy waith y gyfradd goramser fesul awr a nodir yn erthygl 13 o'r Gorchymyn hwn;

(c) lwfans gwaith nos o £1.55 am bob awr o waith nos; a

(d) grant geni a mabwysiadu o £64.29 am bob plentyn.

Costau hyfforddi

17.—(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn mynd ar gwrs hyfforddi gyda chytundeb ei gyflogwr ymlaen llaw, rhaid i'r cyflogwr dalu—

(a) unrhyw ffioedd am y cwrs; a

(b) unrhyw gostau teithio a llety a ysgwyddir gan y gweithiwr amaethyddol wrth fynd ar y cwrs.

(2) Bernir bod gweithiwr amaethyddol sydd wedi ei gyflogi'n ddi-dor ar Radd 1 gan yr un cyflogwr am ddim llai na 30 wythnos wedi cael cymeradwyaeth ei gyflogwr i ymgymryd â hyfforddiant gyda golwg ar sicrhau'r cymwysterau angenrheidiol y mae'n ofynnol i weithiwr Radd 2 feddu arnynt.

(3) Y cyflogwr sydd i dalu am unrhyw hyfforddiant y mae gweithiwr amaethyddol yn ymgymryd ag ef yn unol â pharagraff (2).

RHAN 4

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

18. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn y Rhan hon, mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol gan ei gyflogwr mewn cysylltiad â'i absenoldeb salwch.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Amodau cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol

19. Mae gweithiwr amaethyddol yn cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn ar yr amod bod y gweithiwr amaethyddol—

(a) wedi cael ei gyflogi'n barhaus gan ei gyflogwr am gyfnod o 52 o wythnosau o leiaf cyn yr absenoldeb salwch;

(b) wedi hysbysu ei gyflogwr am yr absenoldeb salwch mewn ffordd a gytunwyd yn flaenorol gyda'i gyflogwr neu, yn niffyg unrhyw gytundeb o'r fath, drwy unrhyw ddull rhesymol;

(c) mewn amgylchiadau pan fo'r absenoldeb salwch wedi parhau am gyfnod o 8 diwrnod yn olynol neu ragor, wedi darparu tystysgrif i'w gyflogwr gan ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n datgelu'r diagnosis ynghylch anhwylder meddygol y gweithiwr ac sy'n datgan mai'r anhwylder sydd wedi achosi absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol.

Cyfnodau absenoldeb salwch

20. Rhaid i unrhyw 2 gyfnod o salwch sydd â chyfnod o ddim mwy na 14 diwrnod rhyngddynt gael eu trin fel un cyfnod o absenoldeb salwch.

Cyfyngiadau ar yr hawl i dâl salwch amaethyddol

21.—(1) Ni fydd tâl salwch amaethyddol yn daladwy am y 3 diwrnod cyntaf o absenoldeb salwch o dan amgylchiadau pan fo hyd yr absenoldeb salwch yn llai na 14 diwrnod.

(2) Yn ystod pob cyfnod hawl, uchafswm nifer yr wythnosau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol ar eu cyfer yw—

(a) 13 wythnos pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan yr un cyflogwr am o leiaf 12 mis ond heb fod yn fwy na 24 mis;

(b) 16 wythnos pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan yr un cyflogwr am o leiaf 24 mis ond heb fod yn fwy na 36 mis;

(c) 19 wythnos pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan yr un cyflogwr am o leiaf 36 mis ond heb fod yn fwy na 48 mis;

(d) 22 wythnos pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan yr un cyflogwr am o leiaf 48 mis ond heb fod yn fwy na 59 mis;

(e) 26 wythnos pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan yr un cyflogwr am 59 mis neu fwy.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu unrhyw oramser gwarantedig, pan fo hynny'n berthnasol, ar nifer penodedig o ddiwrnodau bob wythnos, cyfrifir uchafswm nifer y diwrnodau o dâl salwch amaethyddol y mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i'w cael drwy luosi uchafswm nifer yr wythnosau sy'n berthnasol i'r gweithiwr amaethyddol â nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos.

(4) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu unrhyw oramser gwarantedig, pan fo hynny'n berthnasol, ar nifer amrywiol o ddiwrnodau bob wythnos, cyfrifir uchafswm nifer y diwrnodau o dâl salwch amaethyddol y mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i'w cael drwy luosi uchafswm nifer yr wythnosau sy'n berthnasol i'r gweithiwr hwnnw â nifer y diwrnodau perthnasol.

(5) Cyfrifir nifer y diwrnodau perthnasol drwy rannu nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd yn ystod cyfnod o 12 mis yn arwain at gyfnod yr absenoldeb salwch â 52.

(6) Mae uchafswm hawl gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol yn gymwys pa faint bynnag o gyfnodau o absenoldeb salwch a geir yn ystod unrhyw gyfnod hawl.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), yn yr erthygl hon, "cyfnod hawl" yw cyfnod sy'n dechrau â chychwyn absenoldeb salwch ac sy'n dod i ben 12 mis yn ddiweddarach.

(8) Os yw'r gweithiwr amaethyddol yn cael cyfnod o absenoldeb salwch sy'n cychwyn unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hawl a ddisgrifir ym mharagraff (7), ond sy'n parhau tu hwnt i ddiwedd y cyfnod hawl hwnnw, rhaid estyn y cyfnod hawl fel y bo'n dod i ben â pha un bynnag o'r canlynol sy'n digwydd gyntaf—

(a) y dyddiad y mae absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol yn dod i ben ac y mae'r gweithiwr amaethyddol yn dychwelyd i'r gwaith; neu

(b) y diwrnod y mae'r gweithiwr amaethyddol yn cyrraedd uchafswm yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol sy'n gymwys i'r cyfnod o 12 mis y cyfeirir ato ym mharagraff (7) (pe na bai hwnnw wedi ei estyn).

Pennu swm tâl salwch amaethyddol

22.—(1) Mae tâl salwch amaethyddol yn daladwy yn ôl cyfradd sy'n cyfateb i'r gyfradd tâl isaf fesul awr a ragnodir yn erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 4 iddo fel y gyfradd sy'n gymwys i'r radd honno neu'r categori hwnnw o weithiwr amaethyddol.

(2) Pennir swm y tâl salwch amaethyddol sy'n daladwy i weithiwr amaethyddol drwy gyfrifo nifer yr

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

oriau contract dyddiol a fyddai wedi cael eu gweithio yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch.

(3) Pennir nifer yr oriau contract dyddiol—

(a) o dan amgylchiadau pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio nifer penodedig o oriau bob wythnos dwy rannu cyfanswm nifer yr oriau a weithiwyd yn ystod unrhyw wythnos â nifer y diwrnodau a weithiwyd yn yr wythnos honno;

(b) o dan amgylchiadau pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio nifer amrywiol o oriau bob wythnos, drwy ddefnyddio'r fformwla—

$$\frac{QH \div 8}{DWEW}$$

pan fo, at ddibenion yr erthygl hon—

QH yn gyfanswm nifer yr oriau cymwys yn y cyfnod, a

DWEW yn nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol o'u cymryd ar gyfartaledd yn ystod cyfnod o 8 wythnos yn union cyn i'r absenoldeb salwch gychwyn.

(4) Yn yr erthygl hon "oriau cymwys" yw oriau—

(a) pan fu'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu oramser gwarantedig;

(b) pan gymerodd y gweithiwr amaethyddol wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth;

(c) pan gafodd y gweithiwr amaethyddol absenoldeb salwch a oedd yn gymwys ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn; neu

(d) pan gafodd y gweithiwr amaethyddol absenoldeb salwch nad oedd yn gymwys ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn; a

"diwrnodau cymwys" yw unrhyw ddiwrnodau o fewn y cyfnod y cafwyd ynddynt oriau cymwys mewn perthynas â'r gweithiwr amaethyddol.

(5) At ddibenion cyfrifiadau o dan yr erthygl hon, pan gyflogwyd gweithiwr amaethyddol gan ei gyflogwr am lai nag 8 wythnos, rhaid ystyried yr oriau cymwys a'r diwrnodau cymwys yn ystod y gwir nifer o wythnosau y cyflogwyd y gweithiwr amaethyddol gan ei gyflogwr.

Tâl salwch amaethyddol i gymryd tâl salwch statudol i ystyriaeth

23. Caniateir i swm sy'n hafal i unrhyw daliad tâl salwch statudol a wneir yn unol â Rhan XI o Ddeddf

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**) mewn cysylltiad â chyfnod absenoldeb salwch gweithiwr amaethyddol gael ei dynnu oddi ar dâl salwch amaethyddol y gweithiwr hwnnw.

Talu tâl salwch amaethyddol

24. Rhaid i dâl salwch amaethyddol gael ei dalu i'r gweithiwr amaethyddol ar ei ddiwrnod cyflog arferol yn unol â naill ai ei gontract gwasanaeth neu ei brentisiaeth.

Cyflogaeth yn dod i ben yn ystod absenoldeb salwch

25.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), os terfynir naill ai contract gwasanaeth gweithiwr amaethyddol neu ei brentisiaeth yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch neu os rhoddir hysbysiad i'r gweithiwr amaethyddol fod naill ai ei gontract gwasanaeth neu ei brentisiaeth i gael eu terfynu, mae unrhyw hawl sydd gan y gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol yn parhau ar ôl i'r contract hwnnw ddod i ben fel pe bai'r gweithiwr amaethyddol yn dal yn cael ei gyflogi gan ei gyflogwr, hyd nes i un o'r canlynol ddigwydd—

(a) bod absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol yn dod i ben;

(b) bod y gweithiwr amaethyddol yn dechrau gweithio i gyflogwr arall; neu

(c) bod uchafswm yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol yn unol ag erthygl 21 yn cael ei ddihysbyddu.

(2) Nid oes gan weithiwr amaethyddol y terfynwyd ei gontract hawl i gael unrhyw dâl salwch amaethyddol ar ôl diwedd ei gyflogaeth yn unol â pharagraff (1) os rhoddwyd hysbysiad i'r gweithiwr amaethyddol fod ei gyflogwr yn bwriadu terfynu ei gontract gwasanaeth neu ei brentisiaeth cyn i'r cyfnod o absenoldeb salwch gychwyn.

Gordalu tâl salwch amaethyddol

26.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2), os caiff gweithiwr amaethyddol sydd â hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan y Rhan hon daliad am fwy o dâl salwch amaethyddol na'i hawl, gall ei gyflogwr adennill gordaliad y tâl salwch amaethyddol hwnnw drwy ei dynnu oddi ar gyflog y gweithiwr amaethyddol hwnnw.

(2) Os tynnir gordaliad tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn fel y'i crybwyllir ym mharagraff (1), rhaid i'r cyflogwr beidio â thynnu

(**1**) 1992 p. 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mwy nag 20% o gyflog gros y gweithiwr amaethyddol oni bai bod hysbysiad wedi ei roi i derfynu'r gyflogaeth neu fod y gyflogaeth eisoes wedi ei therfynu pryd y caniateir i fwy nag 20% o gyflog gros y gweithiwr amaethyddol gael ei dynnu gan y cyflogwr oddi ar daliad cyflog olaf y gweithiwr.

Iawndal a adenillir yn sgil colli enillion

27.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i weithiwr amaethyddol y mae ei hawl i gael tâl salwch amaethyddol yn codi oherwydd gweithred neu anwaith person heblaw ei gyflogwr ac mae'r iawndal yn cael ei adennill gan y gweithiwr amaethyddol mewn cysylltiad â cholled enillion a ddioddefir yn ystod y cyfnod y cafodd y gweithiwr amaethyddol dâl salwch amaethyddol gan ei gyflogwr ar ei gyfer.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys—

(a) rhaid i'r gweithiwr amaethyddol roi gwybod ar unwaith i'w gyflogwr am yr holl amgylchiadau perthnasol ac am unrhyw hawliad ac am unrhyw iawndal a adenillwyd o dan unrhyw gyfaddawd, setliad neu ddyfarniad;

(b) rhaid i'r holl dâl salwch amaethyddol a dalwyd gan y cyflogwr i'r gweithiwr amaethyddol hwnnw mewn cysylltiad â'r absenoldeb salwch yr adenillir iawndal am golli enillion ar ei gyfer fod yn gyfystyr â benthyciad i'r gweithiwr; ac

(c) rhaid i'r gweithiwr amaethyddol ad-dalu i'w gyflogwr swm nad yw'n fwy na'r lleiaf o'r canlynol—

(i) swm yr iawndal a adenillwyd am golli enillion yn y cyfnod y talwyd tâl salwch amaethyddol ar ei gyfer; a

(ii) y symiau a roddwyd i'r gweithiwr amaethyddol gan ei gyflogwr o dan y Rhan hon ar ffurf tâl salwch amaethyddol.

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

Seibiannau gorffwys

28.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sydd â'i amser gweithio dyddiol yn fwy na 5 awr a hanner hawl i gael seibiant gorffwys.

(2) Mae'r seibiant gorffwys y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (1) yn gyfnod di-dor o ddim llai na 30 munud ac mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i'w

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dreulio i ffwrdd o'i weithfan (os oes ganddo un) neu ei le gwaith arall.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), nid yw'r darpariaethau ynglŷn â seibiannau gorffwys a bennir ym mharagraffau (1) a (2) yn gymwys i weithiwr amaethyddol—

(a) pan nad yw cyfnod ei amser gweithio yn cael ei fesur neu ei bennu ymlaen llaw oherwydd nodweddion penodol y gweithgaredd y mae'r gweithiwr amaethyddol yn ei gyflawni;

(b) pan fo gweithgareddau'r gweithiwr amaethyddol yn golygu bod angen parhad mewn gwasanaeth neu mewn cynhyrchu;

(c) pan geir ymchwydd gweithgarwch rhagweladwy;

(d) pan effeithir ar weithgareddau'r gweithiwr amaethyddol—

(i) gan ddigwyddiad oherwydd amgylchiadau anarferol nad ydynt yn rhagweladwy, y tu hwnt i reolaeth ei gyflogwr;

(ii) gan ddigwyddiadau eithriadol, nad oedd modd osgoi eu canlyniadau er i'r cyflogwr arfer pob gofal dyladwy; neu

(iii) gan ddamwain neu'r risg bod damwain ar fin digwydd; neu

(e) pan fo'r cyflogwr a'r gweithiwr amaethyddol yn cytuno i addasu paragraffau (1) a (2) neu i'w hatal rhag bod yn gymwys yn y modd ac i'r graddau a ganiateir gan neu o dan Reoliadau Amser Gwaith 1998(**1**).

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys a bod ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol weithio yn unol â hynny yn ystod cyfnod a fyddai fel arall yn seibiant gorffwys—

(a) rhaid i'r cyflogwr, oni bai bod is-baragraff (b) yn gymwys, ganiatáu i'r gweithiwr amaethyddol gymryd cyfnod cyfatebol o seibiant yn ei le; a

(b) mewn achosion eithriadol pan nad yw, am resymau gwrthrychol, yn bosibl caniatáu cyfnod gorffwys o'r fath, rhaid i gyflogwr y gweithiwr amaethyddol gynnig iddo unrhyw amddiffyniad sy'n briodol i warchod iechyd a diogelwch y gweithiwr amaethyddol.

(**1**) O.S. 1998/1833.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Y flwyddyn gwyliau blynyddol

29. Y flwyddyn gwyliau blynyddol i bob gweithiwr amaethyddol yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Hydref ac sy'n dod i ben ar 30 Medi.

Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio penodedig a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau

30.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol a gyflogir gan yr un cyflogwr drwy gydol y flwyddyn gwyliau blynyddol hawl i gael y swm gwyliau blynyddol a ragnodir yn y Tabl yn Atodlen 5.

(2) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ac unrhyw oramser gwarantedig, pan fo hynny'n berthnasol, ar nifer penodedig o ddiwrnodau cymwys bob wythnos, nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos at ddibenion y Tabl yn Atodlen 5 yw'r nifer penodedig hwnnw o ddiwrnodau.

Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio amrywiol a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau

31.—(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar nifer amrywiol o ddiwrnodau bob wythnos, cymerir mai nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos at ddibenion y Tabl yn Atodlen 5, yw cyfartaledd nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos yn ystod cyfnod o 12 wythnos yn union cyn i wyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol gychwyn a rhaid i'r nifer cyfartalog hwnnw o ddiwrnodau cymwys gael ei dalgrynnu i'r diwrnod cyfan agosaf, pan fo hynny'n briodol.

(2) Ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol rhaid i'r cyflogwr gyfrifo hawl wirioneddol y gweithiwr amaethyddol at ddibenion y Tabl yn Atodlen 5, ar sail nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos, wedi ei gymryd fel cyfartaledd nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos yn ystod y flwyddyn gwyliau blynyddol (h.y. dros gyfnod o 52 wythnos) a rhaid i nifer cyfartalog y diwrnodau cymwys gael ei dalgrynnu i'r diwrnod cyfan agosaf, pan fo hynny'n briodol.

(3) Os yw'r gweithiwr amaethyddol, ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol, wedi cronni hawl i wyliau ond heb eu cymryd, mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i ddwyn ymlaen unrhyw wyliau a gronnwyd ond nas cymerwyd i'r flwyddyn gwyliau blynyddol ganlynol yn unol ag erthygl 33(3) o'r Gorchymyn hwn neu caiff y gweithiwr amaethyddol a'r cyflogwr gytuno i daliad yn lle unrhyw wyliau a gronnwyd ond nas cymerwyd yn unol ag erthygl 36 o'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) Os yw'r gweithiwr amaethyddol, ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol, wedi cymryd mwy o ddiwrnodau gwyliau nag yr oedd ganddo hawl iddynt o dan y Gorchymyn hwn, ar sail nifer cyfartalog y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos (wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (2)), mae gan y cyflogwr hawl i ddidynnu unrhyw dâl am ddiwrnodau gwyliau a gymerwyd uwchlaw hawl y gweithiwr amaethyddol neu, fel arall, ddidynnu'r diwrnodau gwyliau a gymerwyd uwchlaw hawl y gweithiwr amaethyddol o'i hawl ar gyfer y flwyddyn gwyliau blynyddol ganlynol (ar yr amod nad yw didyniad o'r fath yn arwain at fod y gweithiwr amaethyddol yn cael llai na'i hawl gwyliau blynyddol statudol o dan reoliadau 13 a 13A o Reoliadau Amser Gwaith 1998).

Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a gyflogir am ran o'r flwyddyn gwyliau

32.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol a gyflogir gan yr un cyflogwr am ran o'r flwyddyn gwyliau blynyddol hawl i gronni gwyliau blynyddol yn ôl cyfradd o 1/52 o'r hawl i gael gwyliau blynyddol a bennir yn y Tabl yn Atodlen 5 am bob wythnos orffenedig o wasanaeth gyda'r un cyflogwr.

(2) Pan fo swm y gwyliau blynyddol a gronnwyd mewn achos penodol yn cynnwys ffracsiwn o ddiwrnod heblaw hanner diwrnod, mae'r ffracsiwn hwnnw—

(a) i'w dalgrynnu i lawr i'r diwrnod cyfan nesaf os yw'n llai na hanner diwrnod; a

(b) i'w dalgrynnu i fyny i'r diwrnod cyfan nesaf os yw'n fwy na hanner diwrnod.

Amseru gwyliau blynyddol

33.—(1) Caiff gweithiwr amaethyddol gymryd gwyliau blynyddol y mae ganddo hawl i'w cymryd o dan y Gorchymyn hwn unrhyw bryd o fewn y flwyddyn gwyliau blynyddol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ei gyflogwr.

(2) Nid oes gan weithiwr amaethyddol hawl i gario unrhyw hawl gwyliau blynyddol nas cymerwyd ymlaen o'r naill flwyddyn gwyliau i'r flwyddyn gwyliau nesaf heb gymeradwyaeth ei gyflogwr.

(3) Pan fo cyflogwr wedi cytuno y caiff gweithiwr amaethyddol gario unrhyw hawl gwyliau blynyddol nas defnyddiwyd ymlaen, dim ond yn ystod y flwyddyn gwyliau y mae'n cael ei gario ymlaen iddi y caniateir i'r balans gael ei gymryd.

(4) Yn ystod y cyfnod o 1 Hydref hyd at 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol caiff cyflogwr ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gymryd hyd at 2 wythnos o'i hawl gwyliau blynyddol o dan y Gorchymyn hwn a chaiff

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gyfarwyddo i'r gweithiwr gymryd un o'r 2 wythnos hynny o wyliau blynyddol ar ddiwrnodau yn yr un wythnos.

(5) Yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill hyd at 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol, rhaid i gyflogwr ganiatáu i weithiwr amaethyddol gymryd 2 wythnos o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr o dan y Gorchymyn hwn mewn wythnosau olynol.

(6) At ddibenion yr erthygl hon, mae 1 wythnos o wyliau blynyddol gweithiwr amaethyddol yn cyfateb i nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol fel y'i pennir yn unol ag erthyglau 30 a 31.

Tâl gwyliau

34.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael ei dalu mewn cysylltiad â phob diwrnod o wyliau blynyddol y mae'n ei gymryd.

(2) Mae swm y tâl gwyliau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael o dan baragraff (1) i'w bennu drwy rannu cyflog wythnosol y gweithiwr amaethyddol fel y'i pennir yn unol â pharagraff (3) neu, yn ôl y digwydd, paragraff (4), â nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol hwnnw.

(3) Pan nad yw oriau gwaith arferol y gweithiwr amaethyddol o dan naill ai ei gontract gwasanaeth neu ei brentisiaeth yn amrywio (yn ddarostyngedig i baragraff (4)), swm cyflog wythnosol y gweithiwr amaethyddol at ddibenion paragraff (2) yw tâl wythnosol arferol y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy gan y cyflogwr.

(4) Pan fo oriau gwaith arferol y gweithiwr amaethyddol yn amrywio o wythnos i wythnos, neu pan fo gweithiwr amaethyddol sydd ag oriau gwaith arferol (fel ym mharagraff (3)) yn gweithio goramser yn ogystal â'r oriau hynny, cyfrifir swm tâl wythnosol arferol y gweithiwr amaethyddol at ddibenion paragraff (2) drwy adio swm tâl wythnosol arferol y gweithiwr amaethyddol ym mhob un o'r 12 wythnos yn union cyn cychwyn gwyliau blynyddol y gweithiwr a rhannu'r cyfanswm â 12.

(5) At ddibenion yr erthygl hon ystyr "tâl wythnosol arferol" yw—

(a) tâl sylfaenol y gweithiwr amaethyddol o dan ei gontract gwasanaeth neu ei brentisiaeth; a

(b) unrhyw dâl goramser ac unrhyw lwfans a delir yn gyson i'r gweithiwr amaethyddol.

(6) Pan fo gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan ei gyflogwr am lai na 12 wythnos, rhaid ystyried wythnosau pan oedd tâl yn ddyledus i'r gweithiwr amaethyddol yn unig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(7) At ddibenion paragraff (2), mae nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd yn cael ei bennu yn unol â'r darpariaethau yn erthyglau 30 a 31 o'r Gorchymyn hwn.

(8) Rhaid i unrhyw dâl sy'n ddyledus i weithiwr amaethyddol o dan yr erthygl hon gael ei dalu heb fod yn hwyrach na diwrnod gwaith olaf y gweithiwr amaethyddol cyn i'r cyfnod o wyliau blynyddol y mae'r taliad yn ymwneud ag ef gychwyn.

Gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc

35.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo gŵyl gyhoeddus neu ŵyl banc yng Nghymru yn syrthio ar ddiwrnod pan fo'n ofynnol fel arfer i weithiwr amaethyddol weithio o dan naill ai ei gontract gwasanaeth neu ei brentisiaeth.

(2) Mae gan weithiwr amaethyddol y mae ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithio ar yr ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc hawl i gael tâl nad yw'n llai na'r gyfradd goramser a bennir yn erthygl 13.

(3) Mae balans y gwyliau blynyddol sydd wedi eu cronni ar gyfer y flwyddyn gwyliau honno o dan y Gorchymyn hwn gan weithiwr amaethyddol nad yw ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithio ar yr ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc i gael ei leihau o 1 diwrnod mewn cysylltiad â'r ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc nad yw'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol weithio arni.

Taliad yn lle gwyliau blynyddol

36.—(1) Yn ddarostyngedig i'r amodau ym mharagraff (2), caiff gweithiwr amaethyddol a'i gyflogwr gytuno bod y gweithiwr amaethyddol i gael taliad yn lle diwrnod o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) bod uchafswm nifer y diwrnodau y caiff gweithiwr amaethyddol gael taliad yn lle gwyliau blynyddol ar eu cyfer yn ystod unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol wedi ei ragnodi yn y Tabl yn Atodlen 6;

(b) bod cofnod ysgrifenedig i'w gadw gan y cyflogwr ynglŷn ag unrhyw gytundeb y caiff gweithiwr amaethyddol daliad yn lle diwrnod o wyliau blynyddol am o leiaf 3 blynedd gan gychwyn ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau honno;

(c) o dan amgylchiadau pan nad yw'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ar ddiwrnod fel y cytunir yn unol â pharagraff (1), bod y diwrnod hwnnw i barhau'n rhan o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) bod taliad yn lle gwyliau blynyddol i'w dalu ar gyfradd sy'n cynnwys y gyfradd goramser a bennir yn erthygl 13 yn ogystal â thâl gwyliau a gyfrifir yn unol ag erthygl 34 fel pe bai'r diwrnod y gwneir taliad yn lle gwyliau blynyddol yn ddiwrnod y mae'r gweithiwr amaethyddol yn cymryd gwyliau blynyddol.

Talu tâl gwyliau wrth derfynu cyflogaeth

37.—(1) Pan derfynir cyflogaeth gweithiwr amaethyddol ac nad yw'r gweithiwr amaethyddol wedi cymryd yr holl hawl gwyliau blynyddol sydd wedi cronni iddo ar ddyddiad terfynu'r gyflogaeth, mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl yn unol â pharagraff (2) i gael taliad yn lle'r gwyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd.

(2) Mae swm y taliad sydd i'w dalu i'r gweithiwr amaethyddol yn lle pob diwrnod o'i wyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd ar ddyddiad terfynu'r gyflogaeth i'w gyfrifo yn unol ag erthygl 34 fel pe bai dyddiad terfynu'r gyflogaeth yn ddiwrnod cyntaf cyfnod o wyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol.

Adennill tâl gwyliau

38.—(1) Os terfynir cyflogaeth gweithiwr amaethyddol cyn diwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol a bod y gweithiwr amaethyddol wedi cymryd mwy o wyliau blynyddol nag yr oedd ganddo hawl i'w cael o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn neu fel arall, mae gan ei gyflogwr hawl i adennill swm y tâl gwyliau a dalwyd i'r gweithiwr amaethyddol mewn cysylltiad â gwyliau blynyddol a gymerwyd uwchlaw ei hawl.

(2) Pan fo gan gyflogwr hawl o dan baragraff (1) i adennill tâl gwyliau oddi ar weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr wneud hynny drwy ei dynnu oddi ar daliad cyflog olaf y gweithiwr amaethyddol.

Absenoldeb oherwydd profedigaeth

39.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl o dan amgylchiadau pan fo'r brofedigaeth yn ymwneud â pherson yng Nghategori A neu Gategori B.

(2) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori A yw—

(a) rhiant i'r gweithiwr amaethyddol;

(b) mab neu ferch i'r gweithiwr amaethyddol;

(c) priod neu bartner sifil y gweithiwr amaethyddol; neu

(d) rhywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel gŵr a gwraig heb fod yn gyfreithiol briod neu rywun y mae'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent mewn partneriaeth sifil.

(3) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori B yw—

(a) brawd neu chwaer i'r gweithiwr amaethyddol;

(b) nain neu daid i'r gweithiwr amaethyddol; neu

(c) ŵyr neu wyres i'r gweithiwr amaethyddol.

(4) At ddibenion paragraff (1) mae absenoldeb oherwydd profedigaeth yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill i gael absenoldeb o dan y Gorchymyn hwn.

Pennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth

40.—(1) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A yw—

(a) 4 diwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 niwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr; neu

(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A i'w gyfrifo yn ôl y fformwla a ganlyn—

$$\frac{\text{DWEW} \times 4}{5}$$

(3) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B yw—

(a) 2 ddiwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 niwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr; neu

(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (4).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), pan fo'r erthygl hon yn gymwys mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B i'w gyfrifo yn ôl y fformwla a ganlyn—

$$\frac{\text{DWEW} \times 2}{5}$$

(5) At ddibenion y fformwla ym mharagraffau (2) a (4), DWEW yw nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol wedi ei gyfrifo yn unol ag erthygl 30 neu 31 (fel y bo'n briodol).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(6) Pan fo'r cyfrifiad ym mharagraff (2) neu (4) yn arwain at hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth o lai nag 1 diwrnod, mae'r hawl i'w thalgrynnu i fyny i un diwrnod cyfan.

(7) Mewn amgylchiadau pan fo mwy nag un gyflogaeth gan weithiwr amaethyddol (boed gyda'r un cyflogwr neu gyda chyflogwyr gwahanol), caniateir cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl mewn cysylltiad â mwy nag un gyflogaeth ond ni chaiff, mewn cysylltiad ag unrhyw un brofedigaeth, fod yn fwy nag uchafswm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth a bennir ar gyfer un gyflogaeth yn yr erthygl hon.

Swm tâl absenoldeb oherwydd profedigaeth

41. Mae swm y tâl mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd profedigaeth i'w bennu yn unol â'r darpariaethau yn erthygl 34 fel pe bai diwrnod cyntaf absenoldeb y gweithiwr amaethyddol oherwydd profedigaeth yn ddiwrnod cyntaf gwyliau blynyddol y gweithiwr hwnnw.

Absenoldeb di-dâl

42. Caiff gweithiwr amaethyddol gymryd cyfnod o absenoldeb di-dâl, gyda chydsyniad ei gyflogwr.

RHAN 6

Dirymu a darpariaeth drosiannol

Dirymu a darpariaeth drosiannol

43.—(1) Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018(**1**) ("Gorchymyn 2018") wedi ei ddirymu.

(2) Mae gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis, ac sy'n ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a ragnodwyd yng Ngorchymyn 2018 neu unrhyw Orchmynion blaenorol, yn parhau i fod wedi ei gyflogi ar y Radd honno neu fel prentis ac mae, o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a ragnodir yn y Gorchymyn hwn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "Gorchmynion blaenorol" yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017(**2**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016(**3**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 a phob gorchymyn a ddirymwyd gan erthygl 70 o'r Gorchymyn hwnnw.

(**1**) O.S. 2018/433 (Cy.76).
(**2**) O.S. 2017/1058 (Cy.271).
(**3**) O.S. 2016/107 (Cy.53).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion
Gwledig, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2019

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ATODLEN 1

Erthyglau 5 a 7

DYFARNIADAU A THYSTYSGRIFAU CYMHWYSEDD GWEITHWYR GRADD 2

Tablau

Cod y Dyfarniad	Sefydliad Dyfarnu	Lefel	Teitl
600/7421/8	ABC	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cefn Gwlad Ymarferol
600/7388/3	ABC	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
600/7423/1	ABC	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Cefn Gwlad Ymarferol
600/7389/5	ABC	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
600/7424/3	ABC	Lefel 1	Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Cefn Gwlad Ymarferol
500/9700/3	ABC	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Cefn Gwlad Ymarferol
500/9854/8	ABC	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
600/5890/0	NOCN	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Garddwriaeth
600/5891/2	NOCN	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Garddwriaeth
601/0156/8	NOCN	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol (Garddwriaeth)
601/0157/X	NOCN	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol (Garddwriaeth)
500/6256/6	City & Guilds	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 yn Astudiaethau'r Tir
500/6713/8	City & Guilds	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Amaethyddiaeth Seiliedig ar Waith
500/6708/4	City & Guilds	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith
500/6712/6	City & Guilds	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Gweithrediadau ar y Tir Seiliedig ar Waith
500/6257/8	City & Guilds	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 yn Astudiaethau'r Tir
500/6752/7	City & Guilds	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Amaethyddiaeth Seiliedig ar Waith
500/6659/6	City & Guilds	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith
500/6660/2	City & Guilds	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Gweithrediadau ar y Tir Seiliedig ar Waith
500/6268/2	City & Guilds	Lefel 1	Diploma Lefel 1 yn Astudiaethau'r Tir
500/6761/8	City & Guilds	Lefel 1	Diploma Lefel 1 mewn Amaethyddiaeth Seiliedig ar Waith

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

500/6709/6	City & Guilds	Lefel 1	Diploma Lefel 1 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith
500/6711/4	City & Guilds	Lefel 1	Diploma Lefel 1 mewn Gweithrediadau ar y Tir Seiliedig ar Waith
600/5587/X	City & Guilds	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
600/5611/3	City & Guilds	Lefel 1	Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
600/5612/5	City & Guilds	Lefel 1	Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
500/9128/1	RHS	Lefel 1	Dyfarniad Lefel 1 mewn Garddwriaeth Ymarferol
601/0613/X	RHS	Lefel 1	Dyfarniad Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Garddwriaeth Ymarferol
601/0554/9	RHS	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Egwyddorion Tyfu, Lluosogi a Datblygu Planhigion
601/0355/3	RHS	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Egwyddorion Garddwriaeth
500/9635/7	ABC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
501/1411/6	ABC	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Coedyddiaeth
500/9633/3	ABC	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Garddwriaeth Ymarferol
603/0159/4	NOCN	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 i'r Gweithiwr Diogel
500/7689/9	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Gweithio'n Ddiogel mewn Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Gynhyrchu
500/6938/X	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth Seiliedig ar Waith
500/6871/9	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith
500/8584/0	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth
500/8552/9	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth
500/8577/3	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Garddwriaeth
500/0677/6	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Technoleg sy'n ymwneud â'r Tir
500/6939/1	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth Seiliedig ar Waith
500/6816/7	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith
500/8590/6	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth
500/8587/6	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Coedwigaeth a Choedyddiaeth
500/8582/7	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Garddwriaeth
501/0683/1	City & Guilds	Lefel 2	Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Technoleg

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

			sy'n ymwneud â'r Tir
600/4671/5	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Gyrru Tractor Amaethyddol a Gweithrediadau Perthynol
600/4883/9	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Gyrru Tractor Cryno a Gweithrediadau Perthynol
600/4957/1	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Trin Cerbydau Pob Tir i'w Reidio ag Un Goes Bob Ochr
600/4689/2	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Beiriannau Torri Gwair a Reolir gan Bobl ar Droed
600/4690/9	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Beiriannau Torri Gwair Hunanyredig i'w Reidio
600/4670/3	City & Guilds	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Beiriannau Torri Gwair a Osodir ar Dractor
500/7693/0	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Peiriannau Amaethyddiaeth
500/7697/8	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Hwsmonaeth a Lles Sylfaenol
600/6303/8	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Tynnu Canghennau a Chwalu Corunau gan Ddefnyddio Llif Gadwyn
600/6160/1	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Llif Gadwyn
600/6161/3	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio
600/6428/6	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Trawslifio Coed gan Ddefnyddio Llif Gadwyn
600/6162/5	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cwympo a Phrosesu Coed hyd at 380mm
600/6619/2	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Llif Gadwyn ar y Tir
500/7889/6	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Gyrru oddi ar y Ffordd
600/6417/1	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Dociwr Polyn â Modur
600/6435/3	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynorthwyo Cydweithwyr heb fod â'u Traed ar y Ddaear sy'n Gwneud Gwaith mewn perthynas â Choed
600/0803/9	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid dros Bellter Hir ar y Ffordd – Cynorthwyydd
600/0307/8	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid dros Bellter Hir ar y Ffordd – Gyrrwr
601/5141/9	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid gan Ddefnyddio Chwistrellwyr Bŵm Llorweddol Hunanyredig, Mowntiedig, Llusg
601/5142/0	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid gan Ddefnyddio Chwistrellwyr Bŵm Geometreg Cyfnewidiol neu Wasgaru

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

601/5143/2	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid Pelennog neu Ronynnog gan Ddefnyddio Taenwyr Mowntiedig neu Lusg
601/5144/4	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid gan Ddefnyddio Offer wedi ei Fowntio ar Gwch
601/5145/6	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid gan Ddefnyddio Offer Llaw ar gyfer Cerddwyr
601/5146/8	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid o'r Awyr
601/5147/X	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymysgu a Throsglwyddo Plaleiddiaid yn Ddiogel
601/5148/1	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid ar ffurf Tarthau, Niwloedd a Mygau
601/5149/3	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Dipio Deunydd Planhigion mewn Plaleiddiaid yn Ddiogel
601/5150/X	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Trin Hadau â Phlaleiddiaid yn Ddiogel
601/5151/1	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid i Ddeunydd Planhigion yn ystod Proses Llif Parhaus
601/5153/3	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Hylifau Plaleiddiaid o dan yr Wyneb yn Ddiogel
601/5153/5	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Blaleiddiaid gan Ddefnyddio Offer Arbenigol
500/7692/9	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Ddip Defaid
601/8781/5	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Tystysgrif Cymhwysedd Lefel 2 yn y Defnydd Diogel a Chyfrifol o Feddyginiaethau Milfeddygol
600/0306/6	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid ar y Ffordd (Siwrneiau Byr)
600/6620/9	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Dringo Coed ac Achub
100/2000/7	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Tystysgrif Cymhwysedd Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Lorri Ddadlwytho
100/2001/9	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Tystysgrif Cymhwysedd Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Beiriannau Olwyn Garw
100/2103/5	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Tystysgrif Cymhwysedd Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Beiriannau Offer
100/1733/1	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Tystysgrif Cymhwysedd Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Gyfarpar Cynnal Glaswellt
601/2259/6	City & Guilds NPTC	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 yn y Defnydd Diogel o Ffosffid Alwminiwm i Reoli Plâu Fertebraidd
600/6453/5	IMIAL	Lefel 2	Tystysgrif Lefel 2 mewn Technoleg sy'n ymwneud â'r Tir
600/6774/3	IMIAL	Lefel 2	Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Technoleg

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

			sy'n ymwneud â'r Tir
501/1740/3	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid ar y Ffordd – Cynorthwyydd Siwrnai Hir
501/1739/7	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid ar y Ffordd – Gyrrwr Siwrnai Hir
501/1738/5	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cludo Anifeiliaid ar y Ffordd – Siwrnai Fer
600/5699/X	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Llif Gadwyn
600/5701/4	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio
600/5700/2	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Trawslifio Coed gan Ddefnyddio Llif Gadwyn
600/5703/8	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Cwympo a Phrosesu Coed hyd at 380mm
600/5717/8	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Tynnu Canghennau a Malu Corunau gan Ddefnyddio Llif Gadwyn (QCF)
500/7449/0	Lantra Awards	Lefel 2	Dyfarniad Lefel 2 mewn Gweithio'n Ddiogel mewn Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Gynhyrchu
35. However, the size of the cap does not directly determine the level of monetary penalty, and it would not free Qualifications Wales from the obligation to set a monetary penalty that is proportionate and reasonable in all the circumstances of the case. Qualifications Wales states in its Monetary Penalties policy that it will take factors such as the extent of the awarding body's business in Wales, the impact of the breach on learners and/or on the qualifications system in Wales into account when setting the level of any fine. Qualifications Wales will also take account of whether any financial sanctions have been imposed in relation to the same breach by other regulators when calculating the level of fine.

Costs and Benefits

36. We have examined the cost of the preferred option and of the General Regulatory Chamber First Tier Tribunal which Qualifications Wales have agreed to pay for.

37. Start-up costs rather than transition costs are envisaged.

38. Qualifications Wales is an independent statutory body, funded by the Welsh Government. They oversee the standards to which qualifications are awarded, independent of influence from others. A core part of this work is to monitor the compliance of awarding bodies and qualifications against their rules ("regulatory activity").

39. Occasionally, when certain awarding bodies cannot or will not comply with the Qualifications Wales rules, they will decide to impose sanctions, using the statutory powers given to them by the Qualifications Wales Act 2015. These powers include the ability to impose a monetary penalty, and to require an awarding body to pay the costs incurred by Qualifications Wales in connection with imposing that penalty.

40. As outlined in the Qualifications Wales draft Monetary Penalties Policy which they consulted on in 2018, they would generally only consider imposing a monetary penalty for the more serious cases of non-compliance. These would

include cases where the non-compliance was either deliberate or the awarding body must have known, or ought reasonably to have known, that there was a risk that a non-compliance would occur and failed to take reasonable steps to prevent it.

41. As such, Qualifications Wales does not anticipate imposing a monetary penalty on a regular basis. It may be useful to note that Ofqual, in the eight years in which it has been in operation, has to date imposed monetary penalties on only **six** occasions. It should also be noted that Ofqual has decided to recover costs incurred in **all** cases where a monetary penalty has been imposed. On this basis, the average number of monetary penalties expected to be imposed in Wales each year is less than one.

42. As noted above, the Act allows Qualifications Wales to require an awarding body to pay the costs incurred by Qualifications Wales in connection with imposing a monetary penalty. This power deters awarding bodies from behaving irresponsibly and ensures that, in the few cases where such a strong regulatory response is necessary, those responsible for the non-compliance pay the costs of investigations and not the public.

43. In deciding whether to require an awarding body to pay these costs, Qualifications Wales will have regard to the extent of these costs, and whether those costs would be proportionate to the monetary penalty imposed.

    They may seek to recover:

    - any costs incurred in investigating the non-compliance that exceed those which they would anticipate in undertaking their regulatory activity;
    - any costs incurred in imposing a monetary penalty that exceed those which they would anticipate in undertaking their regulatory activity;
    - any costs incurred in obtaining legal advice in relation to the specific application of the monetary penalty.

44. They will also consider whether there are any countervailing factors which indicate that the regulator, rather than the awarding body, should meet the costs of imposing the monetary penalty e.g. that a significant period of time has passed since Qualifications Wales incurred costs in connection with the direction, or that their costs exceed the sum of the monetary penalty imposed.

45. In the absence of regulations which grant them the power to impose monetary penalties, Qualifications Wales has not carried out investigations of this nature to date. As such, they are unable to provide Welsh Government with an accurate estimate of the likely costs they would incur in imposing a monetary penalty.

46. It is also important to emphasise that these costs are likely to vary dependent on the nature of each case in question. In the six cases to date in which Ofqual have recovered costs incurred in imposing a monetary penalty, these have ranged from £5,842 to £50,000.

47. However, Qualifications Wales would expect that any direct costs (such as the costs of obtaining external legal advice) will be recoverable as billed. Their investigation and administration costs are likely to be based on the number of hours recorded by staff at different grades, with an hourly rate calculated in accordance with the Managing Welsh Public Money framework[1].

48. They would expect that the majority of the investigation and administrative costs would be incurred at Officer and Manager levels within the Qualifications Wales structure, but also foresee that some costs would be incurred at Associate Director and Director levels in respect of approving such enforcement decisions.

Awarding Bodies

49. The costs to the awarding bodies themselves are likely to vary depending on the nature of each case in question.

50. In the six cases to date in which Ofqual have imposed monetary penalties, these have ranged from £30,000 to £175,000. In determining the amount of a monetary penalty that an awarding body will be required to pay, Qualifications Wales will take the following factors into account:

- the awarding body's turnover;
- the upper limit of the monetary penalty that they may impose on an awarding body, as set by Welsh Ministers;
- the impact of the non-compliance on learners, centres, other awarding bodies and on the Welsh qualification system;
- any costs incurred by the awarding body in attempting to prevent the non-compliance or mitigate its effects;
- the potential impact of a monetary penalty on the awarding body and its ability to comply in the future.

51. Qualifications Wales will also work with other regulators to determine, where necessary, if non-compliance has occurred in relation to their jurisdictions. Qualifications Wales will take any action taken by other regulators into account when deciding whether to impose a monetary penalty.

First-tier Tribunal Costs

52. There will be an impact on the General Regulatory Chamber of the First Tier Tribunal. The Ministry of Justice envisage that costs associated with the new appeals going to the General Regulatory Chamber of the First Tier Tribunal will be formed by start-up costs of £7,000 and running cost of £35,000 for 10 appeals in the first 12 months (this includes any IT changes). Appeals will

[1] Section 6 confirms that '*the standard approach is to set charges to recover full costs*' and that '*cost should be calculated on an accruals basis, including overheads, depreciation (e.g. for start-up or improvement costs) and the cost of capital*'.

then be costed on costs per case basis as £3,500 per appeal (ball park figure). QW have agreed to meet these costs.

53. Tribunals charge an initial start up and running cost when the appeal is due to be implemented and is on the proviso that no IT development of the database is required nor significant judicial training. Those would be subject to additional costs.

54. Start-up costs cover update of the website, guidance, forms, staff and judicial training, senior judicial input into implementation, implementation time and expenses incurred by operational and the jurisdictional and operational support team.

55. The running cost covers only First-tier Tribunal judicial cost for salaried and fee paid judges, expert panel members and lay members and administration for those appeals and use of HMCTS estate for both hearing and administration.

Specific Impact Assessments

Impact of the proposed legislation on duties of the Welsh Ministers as set out in the Government of Wales Act 2006.

56. The 2019 Regulations are not considered to have any specific impact on the duties of the Welsh Ministers as set out in the Government of Wales Act 2006.

UNCRC

57. The regulations actively support the UN Convention on the rights of the child, specifically under articles 12, 29 and 30. The regulations include appropriate protections for learners and for awarding bodies. The Integrated Impact Assessment can be viewed on line.

58. Positive impacts on children and young people were identified as a result of the proposed regulations which will give more protection to learners through the ability of QW to impose penalties. Children and learners can be more confident that the qualifications they take meet their reasonable needs and are rigorous.

Welsh Language

59. Qualifications Wales has regard to the Welsh Language Measure 2011 and promotes and facilitates the uptake of Welsh Language qualifications.

Equality of Opportunity

60. No issues relating to these duties are considered to arise from the making of these 2018 Regulations. The integrated impact assessment can be viewed on the Welsh Government website. The regulations focus on the quality assurance aspects of Qualifications Wales' work. The regulations will help ensure that qualifications are effective in meeting the reasonable needs of learners and that there is public confidence in the qualifications and regulatory processes. As a result of the regulations children, young people and all learners will be able to be

more confident that the qualifications they take are fit for purpose. Section 149(1) of the Equality Act 2010 requires that the Welsh Ministers have regard in the exercise of their functions to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the 2010 Act. The QW Act 2015 references the Equality Act 2010 and the Framework document between the two organisations also says QW should have regard to equality of opportunity.

Well-being and Future Generations (Wales) Act 2015

61. Qualifications Wales will have due regard to the principles of the Well-being and Future Generations Act and this is stipulated in the Framework Agreement between the Welsh Government and Qualifications Wales.

Sustainable Development

62. Through having regard to the Well-being and Future Generations (Wales) Act 2015, QW will act in accordance with the sustainable development principles.

Impact upon the Voluntary Sector

63. We do not expect the voluntary sector to be affected by the new regulations.

Competition Assessment

64. There are no market implications associated with the making of these 2019 Regulations.

Post implementation review

65. The Welsh Government will monitor the impact of the new regulations through feed-back from awarding bodies, Qualifications Wales and other stakeholders.

SL(5)386 - The Rural Affairs, Environment, Fisheries and Food (Miscellaneous Amendments and Revocations) (Wales) Regulations 2019

Background and Purpose

These Regulations introduce miscellaneous amendments to a number of statutory instruments relating to education, environmental protection, agriculture, animal health and welfare, education, environment, food, plant health, sea fisheries and water. The majority of the changes amend out of date references to European and domestic legislation. The instrument also makes a small number of revocations in relation to redundant legislation.

The technical changes made by these Regulations are necessary to ensure the effective and correct functioning of the statute book following the UK's exit from the EU.

Additional amendments cover the following:

•Changes to the Healthy Eating in Schools (Nutritional Standards and Requirements) (Wales) Regulations 2013 to introduce an ambulatory reference to Directives 2008/1333/EC, 2008/1334/EEC;

•Amendment to the Environmental Damage (Prevention and Remediation) (Wales) Regulations 2009 to reflect the addition of hazardous substances to the list of dangerous substances, plant protection products and biocidal products;

•Amendment to the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2017 to ensure up to date transposition of the Drinking Water Directive (Council Directive 98/83/EC).

Procedure

Negative.

In so far as the Regulations are made under the European Communities Act 1972 that Act provides that either negative or affirmative resolution approval procedure may be used and therefore a decision as to which procedure is appropriate must be made according to the particular circumstances of the individual piece of legislation. The explanatory memorandum says that "these Regulations are being made under negative resolution on the basis that they are not controversial or novel, do not amend primary legislation, do not impose or increase a financial burden and do not include consideration of any matters of public policy such as the creation of a new criminal offence." Legal services agree with this view.

Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

Merits Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

Implications arising from exiting the European Union

After the UK exits the European Union, this instrument will become part of retained EU law.

Government Response

A government response is not required.

Legal Advisers
Constitutional and Legislative Affairs Committee
20 March 2019

SL(5)362 - Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a'u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn diwygio gweithrediad presennol Cyfarwyddeb 2001/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 12 Mawrth 2001 ar ollwng GMO yn fwriadol i'r amgylchedd ("y Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol"). Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi fframwaith o reolaethau ar ollwng GMO, at ddibenion treialu ac ar gyfer eu rhoi ar y farchnad.

O dan y Gyfarwyddeb, mae angen awdurdodiad ymlaen llaw ar gyfer gollyngiadau arfaethedig, ar yr amod bod y GMO dan sylw yn pasio asesiad gwyddonol o'i effaith bosibl ar iechyd dynol a'r amgylchedd. Yn achos gollwng ar gyfer treialu, yr Aelod-wladwriaethau sy'n penderfynu a ddylid cymeradwyo ai peidio, ac, yn y DU, mae'r penderfyniadau hyn wedi'u datganoli, gan gynnwys i Gymru. Ar y llaw arall, mae penderfyniadau ar ollwng GMO ar gyfer marchnata masnachol yn cael eu gwneud ar y cyd ar lefel yr UE ar hyn o bryd. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn delio'n benodol â hadau GMO i'w hamaethu: yn hyn o beth, mae'r Gyfarwyddeb yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau atal amaethu ar eu tiriogaeth, er bod yr hadau wedi cael cymeradwyaeth yr UE. Mae penderfyniadau ar y mater hwn hefyd wedi'u datganoli i Gymru.

Gweithredir y Gyfarwyddeb yng Nghymru gan Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 ("Rheoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002").

Mae'r Rheoliadau sy'n destun gwaith craffu hefyd yn diwygio Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau Symudiadau ar draws y Ffin Cymru 2002"), sy'n rheoli allforio GMO o Gymru, fel rhan o'r UE, i drydydd gwledydd (rhai y tu allan i'r UE). Y gofyniad allweddol yw, cyn yr allforio arfaethedig cyntaf o'r GMO y bwriedir iddo gael ei ollwng i'r amgylchedd, bod rhaid hysbysu'r wlad sy'n derbyn i'w gymeradwyo cyn ei anfon.

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Symudiadau ar draws y Ffin Cymru 2002 yn gweithredu, yng Nghymru, Reoliad (EC) Rhif 1946/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Gorffennaf 2003. Mae'r Rheoliad UE hwn, yn ei dro, yn gweithredu cytuniad rhyngwladol (y mae'r UE a'r DU yn bartïon iddo), sef Protocol Bioddiogelwch Cartagena i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

Gwneir y rhan fwyaf o'r diwygiadau i'r ddau offeryn statudol hyn yng Nghymru o dan bwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7, i'r Ddeddf Ymadael â'r UE. Mae paragraff 1(1) o Atodlen 2 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru fynd i'r afael, o fewn cymhwysedd datganoledig, â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, sy'n deillio o'r DU yn ymadael a'r Undeb Ewropeaidd. Mae paragraff 21 o Atodlen 7 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud

darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed, wrth fynd i'r afael â'r methiannau neu'r diffygion hynny, gan gynnwys y pŵer i ailddatgan unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir mewn ffordd gliriach neu fwy hygyrch.

Mae offerynnau statudol Cymru a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yn gyfystyr â chyfraith yr UE a ddargedwir at ddibenion adran 2 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael"). Mae Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn hefyd yn gyfystyr â chyfraith yr UE a ddargedwir, o dan adran 3 o'r Ddeddf Ymadael.

Fodd bynnag, nid yw rhai diwygiadau a wneir yn deillio o'r DU yn ymadael â'r UE, ond, yn hytrach, yn cywiro cyfeiriadau sydd wedi dyddio. Gwneir y diwygiadau hyn drwy ddefnyddio pwerau a roddir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf y Cymunedau Ewropeaidd"). Er y bydd y Ddeddf honno yn cael ei diddymu gan adran 1 o'r Ddeddf Ymadael ar y diwrnod ymadael, bydd y diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth ddomestig yn parhau i gael effaith, yn rhinwedd adran 2 o'r Ddeddf honno.

Yn fras gellir categoreiddio'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau y creffir arnynt fel a ganlyn:

- Dileu cyfeiriadau at ddarpariaethau fel rhai sydd yn 'unol â [deddfwriaeth benodol yr UE]', a chyfeiriadau eraill at gyfraith neu rwymedigaethau'r UE, ac yn hytrach gyfeirio at gyfraith yr UE neu'r rhwymedigaethau hynny wrth iddynt gael eu trosi i gyfraith yr UE a ddargedwir yn rhinwedd y Ddeddf Ymadael;
- Copïo diffiniadau o fewn offerynnau'r UE, fel eu bod yn dod yn rhan o ddeddfwriaeth ddomestig, yn hytrach na diffinio termau drwy gyfeirio at yr offerynnau UE hynny; neu fel arall, nodi y dylid cyfeirio at 'fersiynau' penodol o ddarnau o ddeddfwriaeth yr UE, fel na fydd newidiadau ôl-Brexit i'r ddeddfwriaeth honno yn cael eu trosglwyddo;
- Diweddaru cyfeiriadau at setiau eraill o ddeddfwriaeth a fydd yn cael eu newid yn dilyn ymadael â'r UE neu pan oedd cyfeiriadau at ddarn o ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio;
- Newid cyfeiriadau o gysyniadau cyfraith yr UE i rai y DU, e.e. newid 'lefel Aelod-wladwriaeth' i 'unrhyw gyfraith o unrhyw ran o'r DU'; a
- Dileu darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu ar lefel yr UE, fel hysbysu'r Comisiwn neu Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd 11 o bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(i) - ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires, neu Reol Sefydlog 21.2(ii) – ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano

1.1 Rheoliad 3(10)(a)

1.1.1 Mae rheoliad 3(10)(a) yn rhoi (inter alia) paragraff (4) newydd yn rheoliad 25 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002. Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 yn ymdrin â chydsyniad i farchnata GMO, ac roedd y paragraff (4) gwreiddiol yn gwneud darpariaeth mai'r uchafswm cyfnod y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol (Gweinidogion Cymru, erbyn hyn) roi cydsyniad iddo oedd 10 mlynedd. Mae'n ymddangos bod y diwygiadau a wneir gan y rheoliadau hyn yn dileu'r cap hwnnw ar gyfnodau cydsynio.

1.1.2 Ni allwn weld ar unwaith sut y byddai'r cap yn achosi methiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, neu ddiffyg arall yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, yn deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd; ac felly ni allwn weld sut y mae dileu'r cap yn dod o fewn y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael. At hynny, credwn na ellir dweud bod dileu cap ar gyfnodau cydsynio GMO yn dod o fewn y pŵer ym mharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf Ymadael; nid yw'n ymddangos i ni ei bod yn ddarpariaeth atodol, ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol neu dros dro.

1.2 Rheoliad 3(16)(b)

1.2.1 Mae'r ddarpariaeth hon yn mewnosod paragraff (3A) newydd yn rheoliad 35 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002, sy'n ymdrin â data sydd i'w gynnwys ar gofrestr gyhoeddus o wybodaeth am GMO, a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 122 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (ac o dan rwymedigaethau yn y Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol ac odani).

1.2.2 Bydd paragraff newydd (3A) yn golygu y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei rhoi ar gofrestr gyhoeddus pan fydd rhywun yn gwneud cais am ganiatâd i farchnata GMO. Fodd bynnag, mae gwybodaeth gyfrinachol wedi'i heithrio.

1.2.3 Nodwn, ar ôl Brexit, mai Gweinidogion Cymru, ac nid y Comisiwn Ewropeaidd, fydd yn penderfynu ar roi caniatâd i farchnata. Am y rheswm hwnnw, rydym yn deall pam mae is-baragraff (3A)(e) newydd yn briodol; mae'n gwneud synnwyr gweinyddol i Weinidogion Cymru neilltuo cod cyfeirnod cais i bob cais ac i gysylltu hyn ag unrhyw wybodaeth am y cais hwnnw ar y gofrestr. Felly, ystyriwn fod is-baragraff (3A)(e) yn dod o dan y pwerau cysylltiedig a ddarperir gan baragraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf Ymadael.

1.2.4 Fodd bynnag, mewn perthynas â'r is-baragraffau eraill rydym yn llai clir ynglŷn â vires. Nid yw'n ymddangos bod y darpariaethau yn ofynnol o dan gyfraith yr UE cyn Brexit, ac felly nid yw'r pwerau a roddir gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd yn ymddangos yn berthnasol. O ran y pwerau a ddarperir gan y Ddeddf Ymadael, byddem yn disgwyl i'r rhain gael eu defnyddio i ddisodli, mor agos â phosibl, unrhyw rwymedigaethau ar y Comisiwn i roi gwybodaeth am geisiadau i farchnata GMO yn y parth cyhoeddus.

1.2.5 Fodd bynnag, ymddengys i ni mai rhwymedigaethau'r Comisiwn yn y cyswllt hwn yw cyhoeddi'r wybodaeth gryno a ddarperir gan yr ymgeisydd, ynghyd ag asesiad yr Aelod-wladwriaeth o'r cais, os yw'n ffafriol. Yn amlwg, bydd ail ran y rhwymedigaeth hon yn disgyn unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn dod yn benderfynwr terfynol ac felly mae'n briodol peidio ag ailadrodd hyn yn y rheoliadau. Ond mae'n ymddangos bod rhan gyntaf y rhwymedigaeth wedi'i throsglwyddo i Weinidogion Cymru drwy is-baragraff (i) newydd, a

fewnosodwyd yn rheoliad 35(3). Ar yr olwg gyntaf, byddai hyn yn ymddangos yn briodol i ni i atal unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir rhag gweithredu yn effeithiol, yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE (ynghyd â'r ddarpariaeth newydd yn is-baragraff (3A)(e)).

1.2.6 Hoffem bwysleisio ein bod yn gefnogol iawn i'r nod ym mhenderfyniadau Gweinidogion Cymru i fod yn dryloyw, ac yn arbennig felly ar bynciau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar holl ddinasyddion Cymru, fel argaeledd GMO ar y farchnad. Fodd bynnag, mae'r hyn yr ydym yn ymdrin ag ef yma yn vires i sicrhau'r tryloywder hwnnw. Os yw paragraff newydd (3A)(a)-(d) ac (f)-(g) yn mynd ymhellach na rhoi dyletswyddau i Weinidogion Cymru sy'n adlewyrchu rhwymedigaethau presennol y Comisiwn i'w cyhoeddi, mae'n anodd gweld sut y mae hyn yn dod o dan y pwerau ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael, neu'r rhai atodol ym mharagraff 21 o Atodlen 7. Felly, byddem yn gofyn i Weinidogion Cymru egluro'r materion hyn er mwyn cael gwared ar unrhyw amheuaeth ynghylch vires.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

2.1 Rheoliad 3(2)(a) ac (f), sy'n diwygio'r diffiniadau a gynhwysir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002

2.1.1 Mae rheoliad 3(2)(a) yn newid y diffiniad o "gynnyrch wedi'i gymeradwyo", at ddibenion caniatâd i gael ei farchnata yng Nghymru. Yn ei hanfod, daw'r diffiniad presennol o "gynnyrch wedi'i gymeradwyo" yn ddiffiniad o "cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael", yn rhinwedd diffiniad newydd a fewnosodir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru gan reoliad 3(2)(f) o'r Rheoliadau presennol.

2.1.2 Y diffiniad newydd o "cynnyrch wedi'i gymeradwyo", yn ei hanfod, yw cynnyrch sydd naill ai wedi cael cydsyniad gan Weinidogion Cymru o dan adran 111(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, neu a awdurdodwyd o dan Reoliad 1829/2003 EC, a adwaenir (ac y cyfeirir ato yn y rheoliadau presennol) fel y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

2.1.3 Bydd y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn dod yn gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael, yn rhinwedd adran 3 o'r Ddeddf Ymadael. Ni fydd rheoliad 3 o'r rheoliadau presennol yn dod i rym nes y diwrnod ymadael. Felly, at ddibenion cyfraith ôl-Brexit Cymru, mae'n ymddangos bod awdurdodiad o dan y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn golygu awdurdodiad a roddir ar ôl y diwrnod ymadael. Mae hyn hefyd yn rhesymegol o ystyried creu diffiniad ar wahân ar gyfer "cynnyrch[cynhyrchion] wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael".

2.1.4 Fodd bynnag, mae hyn yn codi dau fater. Yn gyntaf, mae'r Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid eisoes mewn grym. Gofynnir am eglurhad pellach ynghylch pam nad yw'r diffiniad o "cynnyrch wedi'i gymeradwyo cyn y diwrnod ymadael" yn cynnwys cynhyrchion a gymeradwywyd o dan y Rheoliad hwnnw cyn y diwrnod ymadael.

2.1.5 Mae'r ail fater yn bwynt Rhinweddau ac fe'i nodir isod o dan Reol Sefydlog 21.3(ii).

2.2 Rheoliad 3(6)(b) ac (c), sy'n diwygio rheoliad 17(2)(g) a (j) o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002

2.2.1 Mae'r darpariaethau hyn yn diweddaru'r cyfeiriadau at ddogfennau sy'n nodi'r fformat ar gyfer ceisiadau am gydsyniad i farchnata GMO, pryd y gwneir y ceisiadau hynny i

Weinidogion Cymru. Felly, maent yn ddarpariaethau pwysig i ymgeiswyr. Mae rheoliad 3(6)(b) yn darparu bod yn rhaid i ymgeiswyr ddarparu cynllun monitro a baratowyd, inter alia, yn unol â fformat a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/811/EC.

2.2.2 Mae'r ffurflenni cais a nodir yn yr Atodiad hwnnw yn cyfeirio mewn nifer o leoedd at y Gymuned Ewropeaidd (yr Undeb Ewropeaidd, erbyn hyn, wrth gwrs) ac at y Comisiwn Ewropeaidd. Yn benodol, maent yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddisgrifio, fel rhan o'r cynllun monitro sy'n rhan orfodol o'r cais, yr amodau lle bydd yr ymgeisydd yn adrodd i'r Comisiwn. Mae angen mwy o eglurhad ynghylch pam a sut y mae'r fformat a nodir yn yr Atodiad hwn yn briodol ar gyfer ceisiadau ôl-Brexit am gydsyniad i Weinidogion Cymru.

2.2.3 Mae Rheoliad 3(6)(c) yn ymwneud â'r crynodeb gorfodol y mae'n rhaid iddo fod yn rhan o'r cais. Rydym yn codi, isod, y pwynt nad yw'n ymddangos mai hon yw'r ddogfen gywir a nodir yn rheoliad 3(6)(c) fel yr un sy'n gosod y fformat ar gyfer y crynodeb hwn. At ddibenion y pwynt adrodd hwn, byddwn yn tybio mai'r bwriad oedd gorchymyn i ymgeiswyr ddilyn y fformat a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Cyngor 2002/812 EC.

2.2.4 Mae'r Atodiad hwnnw hefyd yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at y Gymuned Ewropeaidd (*sic*) sy'n ymddangos fel petai angen eglurhad pellach. Er enghraifft, mae'n ofynnol i ymgeiswyr nodi a yw eu cynnyrch yn cael ei hysbysu i "Aelod-wladwriaeth" arall, ac a yw person arall wedi rhoi cynnyrch arall gyda'r un cyfuniad o GMO ar "farchnad y Gymuned Ewropeaidd". Yn yr achos olaf, nid yw'n glir i ni sut y bydd gan yr ymgeiswyr y wybodaeth hon ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu amcangyfrif o'r galw mewn marchnadoedd allforio am "gyflenwadau'r Gymuned Ewropeaidd" o'r cynnyrch (cyn-Brexit, byddai cyflenwadau'r DU wrth gwrs yn cyfrif fel cyflenwadau'r Gymuned Ewropeaidd ond ni fyddant yn gwneud hynny ar ôl Brexit).

2.3 Rheoliad 3(8)(b), sy'n diwygio rheoliad 22(6) o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002

Mae ein pryderon am y ddarpariaeth hon yn debyg i'r rhai a nodir yn 1.2. Yn ôl y ddarpariaeth newydd, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth mewn fformat a nodir yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn (2003/71/EC). Mae'r Atodiad hwnnw yn gwneud amryw o gyfeiriadau sy'n ymddangos yn anodd eu gweithredu ar ôl Brexit, gan gynnwys gofyniad i ymgeiswyr ddyfynnu "rhif hysbysu Ewropeaidd".

2.4 Rheoliad 3(9)(a)(ii), sy'n diwygio rheoliad 24(1)(d) o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002

2.4.1 Mae'r ddarpariaeth hon yn disodli rheoliad 24(1)(d) o reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 gyda darpariaeth newydd. Nid oes angen eglurhad pellach ar y ffaith ei fod yn cael ei disodli, gan fod y ddarpariaeth wreiddiol yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru *vis a vis* y Comisiwn Ewropeaidd, na fydd modd ei weithredu mwyach ar ôl y diwrnod ymadael. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod angen peth eglurhad ar osod y ddarpariaeth newydd yn rheoliad 24(1). Mae rheoliad 24(1)(ch) yn ymdrin â dyletswyddau Gweinidogion Cymru i hysbysu ceisydd o'u penderfyniad. Roedd y 24(1)(d) gwreiddiol yn ymdrin â chamau gweithredu yn dilyn y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r 24(1)(d) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried materion penodol wrth wneud eu penderfyniad. Yn rhesymegol, felly, ymddengys y dylai'r rheoliad 24(1)(d) newydd ragflaenu rheoliad 24(1)(ch), yn hytrach na'i ddilyn.

2.5 Rheoliad 3(16)(b) a (17), sy'n diwygio rheoliadau 35 a 36 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002

2.5.1 Fel y trafodwyd uchod, mae rheoliad 3(16)(b) yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol yn y gofrestr gyhoeddus ynghylch GMO. Fodd bynnag, nid yw rheoliad 3(17) yn diwygio rheoliad 36 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 er mwyn rhagnodi terfyn amser i Weinidogion Cymru wneud hynny. Efallai nad bwriad polisi Gweinidogion Cymru oedd gosod terfyn amser o'r fath arnynt eu hunain. Fodd bynnag, mae rheoliad 36 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol (Cymru) 2002 yn gwneud hynny ar gyfer yr holl gategorïau gwybodaeth eraill a restrir yn rheoliad 35 (er bod y diwygiadau a wnaed gan y rheoliadau y creffir arnynt yn codi'r dyddiadau cau hynny mewn perthynas â phenderfyniadau cyn-Brexit y Comisiwn Ewropeaidd neu Aelod-wladwriaethau eraill).

2.5.2 Felly, gofynnir am eglurhad pellach ynghylch absenoldeb dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol.

2.6 Drwy'r cyfan o reoliad 3

2.6.1 Mae nifer o'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yn cael yr effaith y bydd Rheoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 yn defnyddio dau enw gwahanol i gyfeirio at yr hyn sydd bellach yr un person cyfreithiol, sef "y [cyn-]Gynulliad Cenedlaethol Cymru" a "Gweinidogion Cymru". Mae'r holl gyfeiriadau hyn i'w dehongli fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru, yn rhinwedd paragraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n amlwg ar unwaith i'r rhai sy'n ceisio deall y ddeddfwriaeth. Mewn rhai mannau, bydd y ddau enw yn ymddangos yn yr un ddarpariaeth - er enghraifft, yn rheoliad 24 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 (gweler rheoliad 3(9)(a) o'r rheoliadau y creffir arnynt).

2.6.2 Yn ein barn ni, byddai Gweinidogion Cymru wedi cael vires i newid pob cyfeiriad at y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfeiriadau atynt eu hunain, lle y bo'n briodol, o dan baragraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf Ymadael, gan y byddent yn atodol neu'n gysylltiedig i ddarpariaeth a wnaed o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, ac a fyddai'n ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir (offerynnau statudol Cymru a ddiwygiwyd) mewn ffordd gliriach a mwy hygyrch.

2.6.3 Fodd bynnag, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn gweithio o dan bwysau difrifol i wneud yr holl ddiwygiadau hanfodol i gyfraith yr UE a ddargedwir, fel y mae'n gymwys o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru, cyn y diwrnod ymadael ac na fyddai bob amser yn ymarferol gwneud diwygiadau sydd, gellid dadlau, yn ddymunol heb fod yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu ar ôl ymadael.

2.6.4 Rydym hefyd yn gofyn am eglurhad pellach o'r rhesymeg y tu ôl i ddiwygiadau i'r ffordd y cyfeirir at rai darnau o ddeddfwriaeth yr UE yn y rheoliadau. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir ar y diwrnod ymadael, yn rhinwedd y Ddeddf Ymadael.

2.6.5 Mae rheoliad 3(2)(e) yn darparu bod cyfeiriadau yn Rheoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 at Benderfyniad Cyntaf y Weithdrefn wedi'i Symleiddio (planhigion cnwd) yn gyfeiriad at y Penderfyniad hwnnw fel y mae'n gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau'n diwygio cyfeiriadau eraill at gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn Rheoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 yn y modd hwnnw (er enghraifft, y cyfeiriadau,

yn rheoliad 2 o'r rheoliadau hynny, at Reoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, Rheoliad y Cyngor 1829/2003/EC).

2.6.6 Nid yw cyfeiriadau newydd yn y rheoliadau ychwaith at reoliadau uniongyrchol yr UE a ddargedwir (Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE) yn cael eu trin fel hyn (gweler er enghraifft y cyfeiriad at Benderfyniad y Cyngor 2002/813/EC, a fewnosodwyd gan reoliad 3(4)(b)).

2.6.7 Mae'n ymddangos i ni y bydd pob un o'r cyfeiriadau hyn at ddeddfwriaeth yr UE - p'un a ydynt yn bodoli eisoes yn Rheoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002 neu'n rhai sydd wedi'u mewnosod yn ddiweddar - yn cael eu trin fel cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE fel y mae'n gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael, yn rhinwedd Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2019, sydd ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw nad yw'r un o'r cyfeiriadau yn "newidiadwy" (hynny yw, nid ydynt yn cael eu nodi fel cyfeiriadau at offerynnau'r UE fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd gan sefydliadau'r UE; ni nodir ychwaith eu bod yn gyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel yr oeddent yn gymwys ar amser penodol cyn y diwrnod ymadael). Yn wir, byddai y tu allan i bwerau'r Ddeddf Ymadael i wneud cyfeiriadau newydd yn y gyfraith ddomestig at offerynnau'r UE yn newidadwy yn yr ystyr hwn; nid yw'r Ddeddf Ymadael yn rhoi pwerau i Weinidogion olrhain datblygiadau cyfraith yr UE yn y modd hwn, mewn is-ddeddfwriaeth.

2.6.8 Felly, gofynnir am esboniad pellach o'r rhesymeg y tu ôl i Weinidogion Cymru yn dewis gwneud darpariaeth o'r math yn rheoliad 3(2)(e) mewn rhai achosion ac nid mewn achosion eraill er mwyn tryloywder, i'r Cynulliad ac i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth.

2.7 Rheoliad 4 - diwygiadau i'r Atodlen i reoliadau Symudiadau ar draws y Ffin Cymru 2005

2.7.1 Mae llawer o ddarpariaethau rheoliadau Symudiadau ar draws y Ffin Cymru 2005 yn ddibynnol ar "y darpariaethau Cymunedol penodedig", hynny yw, y darpariaethau hynny yn Rheoliad (EC) Rhif 1946/2003 a restrir yn yr Atodlen i'r rheoliadau. Er enghraifft, mae rheoliad 3 yn darparu bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol (Gweinidogion Cymru, nawr) orfodi a gweithredu'r darpariaethau Cymunedol penodedig, tra bo rheoliad 8 yn darparu ei bod yn dramgwydd i unrhyw un fynd yn groes i'r darpariaethau Cymunedol penodedig, neu i fethu â chydymffurfio â hwy. Felly, mae union ystyr y darpariaethau Cymunedol penodedig yn hynod o bwysig.

2.7.2 Mae rheoliad 4 o'r rheoliadau y creffir arnynt yn diwygio disgrifiad o ddau o'r "darpariaethau Cymunedol penodedig" yn yr Atodlen. Mae'r ddau ddiwygiad yn ymddangos, ynddynt eu hunain, yn briodol o ran addasu rheoliadau Symudiadau ar draws y Ffin Cymru 2005 o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE. Mae un yn dileu cyfeiriad at "y Comisiwn", tra bo'r llall yn diwygio'r rheolau ynghylch pa awdurdodiadau sydd eu hangen i allforio GMO i'w defnyddio'n uniongyrchol fel bwyd neu fwyd anifeiliaid neu i'w prosesu. Yn flaenorol, gellid bod wedi cytuno o fewn yr UE awdurdodi mewnforio i wlad benodol; mae'r rheoliadau y creffir arnynt yn disodli hyn o'r diwrnod ymadael gyda darpariaeth bod caniatâd i farchnata yn y DU yn ddigonol.

2.7.3 Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni sut y mae'r diwygiadau hyn yn effeithiol oni bai bod darpariaethau perthnasol Rheoliad Rhif 1946/2003 ei hun yn cael eu diwygio yn yr un modd,

fel cyfraith yr UE a ddargedwir. Diffinnir y darpariaethau yn yr Atodlen i reoliadau Symudiadau ar draws y Ffin Cymru 2005 fel darpariaethau'r Rheoliad hwnnw. Yng ngoleuni'r cyswllt diffiniol hwnnw, mae'n ymddangos yn amheus i ni y gellir newid effaith y darpariaethau hynny, at ddibenion Rheoliadau 2005, drwy ddiwygio'r Atodlen yn unig, ac nid y Rheoliad UE sylfaenol (fel y bydd yn bodoli mewn cyfraith ddomestig ar ôl y diwrnod ymadael). Unwaith eto, rydym yn pwysleisio bod peidio â chydymffurfio â darpariaethau'r Atodlen yn drosedd; mae'r ail enghraifft a roddir yn y paragraff blaenorol yn enghraifft o sefyllfa lle gallai hyn fod yn uniongyrchol berthnasol.

2.7.4 Rydym yn cydnabod bod modd osgoi neu gywiro'r mater a nodwyd gennym gan ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â Brexit. Fodd bynnag, fel y dywedom yn ein hadroddiad diweddar ar Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael a'r UE) 2019, rydym yn credu bod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i geisio esbonio, yn well ac yn fwy llawn, i'r Cynulliad ac i ddinasyddion sut y mae pob darn o ddeddfwriaeth Gymreig ynghylch ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cyd-fynd â'r darlun cyfan o ddeddfwriaeth y DU a'r UE – cyfredol ac arfaethedig – ar y pwnc penodol. Ymddengys mai'r lle priodol ar gyfer hyn fyddai'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offerynnau statudol.

2.7.5 At hynny, fel y dywedasom dro ar ôl tro mewn Adroddiadau blaenorol, mae eglurder yn y gyfraith droseddol yn arbennig o bwysig. Am yr holl resymau hyn, felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi esboniad pellach o'r darpariaethau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

3.1 Rheoliad 3(6)(c)

Fel y nodir uchod, mae'r ddarpariaeth hon yn newid y ddogfen sy'n nodi'r fformat ar gyfer ceisiadau am awdurdodiadau i ollwng yn fwriadol. Felly, mae'n ddarpariaeth bwysig i ymgeiswyr. Mae'n darparu mai'r fformat cywir yw'r un a nodir yn "yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 2002/812 EC". Fodd bynnag, ymddengys nad oes Penderfyniad y Comisiwn gyda'r rhif hwnnw. Fodd bynnag, mae yna Benderfyniad y Cyngor gyda'r rhif hwnnw, ac ymddengys mai'r Atodiad i'r Penderfyniad hwnnw yw'r ddogfen berthnasol.

3.2 Rheoliad 3(10)(b)(ii)

Mae'r ddarpariaeth hon yn disodli rheoliad 25(5) o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002. Mae'n cyfeirio at "reoliad (3) o Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001". Mae hwn yn amlwg yn gyfeirnod anghywir, gan nad yw rheoliadau'n cael eu nodi gan rifau mewn cromfachau. Ar ôl ystyried y Rheoliadau 2001 y cyfeirir atynt, ymddengys i ni mai'r bwriad oedd cyfeirio at "rheoliad 3". Rydym yn ystyried mai gwall teipograffyddol yw hwn yn unig ac nad oes risg gwirioneddol o ddryswch gyda darpariaeth arall yn offeryn statudol 2001. Fodd bynnag, dylid ei gywiro er mwyn dileu unrhyw amheuaeth i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth.

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

4.1 Rheoliad 3(2)(a) a (f), sy'n diwygio rheoliadau 35 a 36 o Reoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002

4.1.1 Mae'r pwynt hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 3(2)(a) ac (f) i'r diffiniad o "gynnyrch wedi'i gymeradwyo" yn rheoliadau Gollwng yn Fwriadol Cymru 2002, at ddibenion caniatâd i gael ei farchnata yng Nghymru. Nodir manylion y ddwy ddarpariaeth hon uchod, o dan baragraff 2.1, sy'n ymwneud â Rheol Sefydlog 21.1(v).

4.1.2 Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn codi pwynt o ran rhinweddau. Mae'r Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn rhoi'r swyddogaeth o awdurdodi cynhyrchion i'w marchnata i'r Comisiwn Ewropeaidd, gyda chymorth Pwyllgor yr UE, ac ar sail barn wyddonol gan yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ("EFSA"). Os na chaiff y Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, pan ddaw'n gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael, ei ddiwygio yn y cyswllt hwnnw, bydd y Comisiwn yn gallu parhau i roi awdurdodiadau a gydnabyddir yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Byddai hyn yn gyson â bwriad cyffredinol y Ddeddf Ymadael i sicrhau parhad, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac am y tro, rhwng cyfraith cyn ac ar ôl Brexit sy'n deillio o'r UE.

4.1.3 Fodd bynnag, mae'n bwysig yn wleidyddol y bydd tystysgrifau marchnata ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a wneir o gynhwysion a addaswyd yn enetig, neu sy'n cynnwys cynhwysion a addaswyd yn enetig, a gyhoeddir gan gorff yr UE, yn parhau i gael eu cydnabod yng Nghymru ar ôl Brexit. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y ddadl yn y DU ac yng Nghymru ynghylch diogelwch bwyd a addaswyd yn enetig.

4.1.4 Rydym yn cydnabod y gallai'r Rheoliad Bwyd a Bwyd Anifeiliaid fod wedi ei ddiwygio, neu ar fin cael ei ddiwygio, mewn rhyw ffordd berthnasol, fel cyfraith yr UE a ddargedwir, gan is-ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU o dan y Ddeddf Ymadael. Rydym hefyd yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu Gweinidogion Cymru wrth geisio deddfu o dan bwysau amser eithafol ac mewn cyd-destun lle mae llawer iawn o ddeddfwriaeth gysylltiedig arall yn cael ei gwneud ganddynt hwy a chan Lywodraeth y DU.

4.1.5 Fodd bynnag, rydym o'r farn, lle bo annibyniaeth o'r fath yn bodoli rhwng gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, a wnaed neu sydd i'w gwneud, mewn maes cyfreithiol mor bwysig, y dylid eu hesbonio, neu o leiaf gyfeirio atynt, yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer craffu.

Y goblygiadau yn sgil ymadael a'r Undeb Ewropeaidd

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Mae paragraff 4.5 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

Wales intends to follow England, Northern Ireland and Scotland's approach on the release of GMO's.

Efallai mai mater o iaith anffodus yw hyn, ond nid ydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru "ddilyn" dull gweithredu gwledydd eraill y DU; yn enwedig ar fater mor bwysig a dadleuol. Mae "dilyn" yn fater gwahanol iawn i gytuno ar ddull cyffredin gyda llywodraethau'r gwledydd eraill hynny. Nodwn fod y Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ar 24 Ebrill 2018 wedi nodi "Amaethyddiaeth - marchnata a thyfu GMO", yn ogystal ag amrywiol faterion yn ymwneud â bwyd, yn feysydd y byddai'r ddwy lywodraeth yn cytuno y byddai'n debygol bod angen fframweithiau cyffredin y DU arnynt - rhai deddfwriaethol neu fel arall - ac rydym yn tybio bod y frawddeg a amlygir uchod yn ceisio adlewyrchu'r cytundeb hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau technegol a'r pwyntiau rhinweddau uchod.

SL(5)372 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau yn sefydlu'r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu ar gyfer yr holl atebolrwyddau cymhwysol, o 1 Ebrill 2019, sef atebolrwyddau contractiol ac atebolrwyddau mewn camwedd.

Mae'r indemniad a ddarperir fel rhan o'r Cynllun yn cwmpasu atebolrwyddau esgeuluster clinigol aelodau (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG) yn ogystal ag atebolrwyddau contractwyr nad ydynt yn aelodau sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn rhinwedd trefniant gydag aelod o'r Cynllun (e.e. contract gwasanaethau meddygol cyffredinol).

Mae'r Cynllun yn gymwys o 1 Ebrill 2019 mewn perthynas â'r holl atebolrwyddau o fewn ei gwmpas. Golyga hyn, o'r dyddiad hwnnw, y cwmpesir aelodau a chontractwyr o dan y Cynllun yn awtomatig mewn perthynas ag atebolrwyddau o'r fath.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu indemniad esgeuluster clinigol i ddarparwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol. Bydd y cynllun yn cwmpasu pob ymarferydd cyffredinol contractiol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n gweithio ym maes meddygol cyffredinol y GIG.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi, ym mharagraff 6:

> "A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for this instrument as it imposes no costs or no savings, or negligible costs or savings on the public, private or charities and voluntary sectors."

O ystyried arwyddocâd y Rheoliadau hyn, byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol (ac ar ba eithriad yng "Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth" y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu i beidio â chynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i'r pwynt Craffu ar Rinweddau yn unol â Rheol Sefydlog 21.3(ii) sy'n ceisio eglurhad o ran pam na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

1. Ystyriaethau Polisi

1.1 Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Mai 2018 y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno o 1 Ebrill 2019 gynllun wedi ei gefnogi gan y wladwriaeth i ddarparu Indemniad Esgeuluster Clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol yng Nghymru (h.y. ar gyfer gwaith y GIG). Croesawyd y cyhoeddiad a'i gefnogi gan Bwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a bwysleisiodd yn benodol fod cyflwyno'r Cynllun yn gam pwysig tuag at wneud ymarfer meddygol yng Nghymru yn fwy cynaliadwy drwy fynd i'r afael â'r pwysau sylweddol o ran costau ar ymarferwyr cyffredinol, o ystyried y ffaith bod costau sy'n gysylltiedig â phremiymau indemniad ymarferwyr cyffredinol yn tueddu i gynyddu. Byddai cyflwyno'r Cynllun yn gyson cyn belled â phosibl â'r cynllun wedi ei gefnogi gan y wladwriaeth a gyhoeddwyd ar gyfer ymarferwyr cyffredinol yn Lloegr y bwriedid iddo ddod i rym ar 1 Ebrill 2019 hefyd.

1.2 Bydd y Cynllun yn adeiladu ar y sicrwydd indemniad presennol wedi ei gefnogi gan y wladwriaeth a ddarperir ar gyfer gofal eilaidd a gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau o fewn GIG Cymru.

1.3 Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, ymgysylltwyd yn helaeth ag ymarferwyr cyffredinol, y tri sefydliad amddiffyn meddygol yn y DU, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, GIG Cymru gan gynnwys y Byrddau Iechyd, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwyr Cyswllt Meddygol, Cyfarwyddwyr Cyllid, Cyfarwyddwyr Nyrsio a Rheolwyr Practisau Ymarferwyr Cyffredinol. Yn benodol mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi ei sefydlu fel fforwm ar gyfer trafod a gwella cynigion i gyflawni'r Cynllun yn ogystal â sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol wedi cael diweddariadau clir ac wedi eu hysbysu am ddatblygiadau allweddol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod Cynlluniau Cymru a Lloegr yn gyson pan fo'n bosibl. Nid yw'r cynllun wedi ei gefnogi gan y wladwriaeth ar gyfer Indemniad Proffesiynol Ymarferwyr Cyffredinol yn cael unrhyw effaith ar y sector gwirfoddol nac ar lywodraeth leol.

1.4 Rhyddhawyd dau ddatganiad ysgrifenedig pellach hefyd gan y Gweinidog ar 15 Tachwedd 2018 a 6 Chwefror 2019 a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynllun i Gymru sydd wedi ei gefnogi gan y wladwriaeth.

2. Gofyniad Proffesiynol am Indemniad Esgeuluster Clinigol

2.1 Mae sicrwydd esgeuluster clinigol yn amod cofrestru yn y DU ar gyfer pob proffesiynolyn gofal iechyd rheoleiddiedig, ac yn achos ymarferwyr meddygol, yn amod i gael trwydded o dan adran 44C o Ddeddf Feddygol 1983. Felly, mae'n ofynnol i broffesiynolion gofal iechyd feddu ar sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol priodol i dalu am gostau hawliadau ac iawndal a ddyfernir i gleifion sy'n deillio o esgeuluster. Gall y sicrwydd fod yn bolisi yswiriant, yn drefniant indemniad, neu'n gyfuniad o'r ddau.

3. Effaith Ariannol y Cynllun

3.1 Mae effaith ariannol cyflawni'r Cynllun wedi ei hasesu gan Gyllid y GIG a Chyllidebu Strategol Llywodraeth Cymru. Mae'r cyngor actiwaraidd a'r dadansoddiad o gostau wedi eu darparu gan Pricewaterhouse Coopers ynghyd â throsolwg a ddarparwyd gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth. Ni ellir rhyddhau manylion yr asesiad ariannol gan eu bod yn ddarostyngedig i gytundebau peidio â datgelu â'r tri sefydliad amddiffyn meddygol.

3.2 Rhaid pwysleisio na ellir cyhoeddi'r holl wybodaeth ariannol gan gynnwys y dadansoddiad o gostau ac opsiynau oherwydd ei natur hynod gyfrinachol a masnachol sensitif ac oherwydd ei bod wedi ei rhwymo gan gytundebau peidio â datgelu.

3.3 Caiff y Cynllun ei gyllido drwy'r gyllideb bresennol a bydd yn niwtral o ran costau i aelodau a chontractwyr sydd wedi eu hyswirio o dan y Cynllun.

3.4 Ni fydd y Cynllun yn cael unrhyw effaith ariannol ar y sector cyhoeddus na'r sector gwirfoddol.

3.5 Bydd y Cynllun yn cael effaith ariannol sy'n niwtral fwy neu lai ar sefydliadau amddiffyn meddygol gan mai Llywodraeth Cymru a fydd yn gyfrifol am unrhyw atebolrwyddau yn y dyfodol ac y caiff premiymau indemniad ymarferwyr cyffredinol a ddarperir gan y sefydliadau amddiffyn meddygol eu haddasu i adlewyrchu'r ffaith bod yr hawliadau esgeuluster clinigol ar gyfer gwaith y GIG yn cael eu dileu. Ceir yr effaith gyffredinol hon ar gyfer gweithgarwch Cymru yng nghyd-destun cyfran marchnad Cymru (3%) o gyfanswm y farchnad amddiffyn meddygol yn y DU.

4. Cynaliadwyedd yn y Tymor Hwy

4.1 Bydd y Cynllun yn darparu datrysiad cynaliadwy yn y tymor hwy i fynd i'r afael â chostau cynyddol sicrwydd indemniad meddygol. Ymhellach, bydd y Cynllun yn helpu i sicrhau y caiff ymarferwyr cyffredinol eu recriwtio'n barhaus ac na fydd cynlluniau gwahanol sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn effeithio ar weithgarwch trawsffiniol Cymru a Lloegr.

5. Eithriad i'r angen am Asesiad Effaith Rheoleiddiol

5.1 Nid oes effaith fawr ar bolisi gan ei fod yn ofyniad presennol i ymarferwyr cyffredinol feddu ar sicrwydd esgeuluster clinigol fel y'i nodir yn 2.1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dull o roi sicrwydd indemniad ar gyfer ymarferwyr cyffredinol am waith y GIG ac yn alinio ag indemniad presennol gofal eilaidd ac ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau GIG Cymru sydd wedi ei gefnogi gan y wladwriaeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd rhinweddau uchod.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**14 Mawrth 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:

Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wasanaethau trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae fy natganiad ar 25 Ionawr am **Reoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019** yn nodi barn Llywodraeth Cymru bod cymorth gwladwriaethol yn fater datganoledig ac nad yw wedi'i gadw'n ôl o dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid yw Llywodraeth y DU o'r un farn ac ni wnaeth ofyn o'r herwydd am ganiatâd Gweinidogion Cymru o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar gyfer **Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019.**

Mae'n safbwynt ar gymorth gwladwriaethol yn effeithio ar **Reoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.** Mae Rheoliad 1370/2007 yn pennu'r amodau ar gyfer digolledu gweithredwyr rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus (PSO) am y costau y maent yn eu hysgwyddo wrth gynnal eu rhwymedigaethau gwasanaeth

cyhoeddus. Mae Rheoliad 1370 yn darparu ar gyfer eithrio'r sector rhag y rheolau cyffredinol ar gymorth gwladwriaethol (gwasanaethau trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd), gan ryddhau'r awdurdodau cyhoeddus rhag gorfod cael cymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ymlaen llaw gan y Comisiwn bob tro y telir iawndal i weithredwr gwasanaeth cyhoeddus, cyn belled â bod yr iawndal yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad 1370/2007.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 23 Hydref 2007 ar wasanaethau trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd (''Rheoliad 1370/2007'') yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fydd yn ddiffygiol pan ddaw'r Rheoliad yn gyfraith yr UE a gadwyd ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Pwrpas y diwygiadau hyn yw cywiro'r diffygion hyn. Mae'r offeryn yn cynnwys hefyd ddarpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n effeithiol ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, sy'n nodi effaith y diwygiad hwn i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-regulation-ec-no-1370-2007-public-service-obligations-amendment-eu-exit-regulations-2019

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Mae'r offeryn yn darparu ar gyfer arbed Erthygl 5 o Reoliad 1370/2007 gan ddefnyddio'r pwerau a roddir yn adran 23(6) a pharagraff 23(3) Atodlen 7 Deddf yr UE (Ymadael) 2018. Y mae wedyn yn darparu bod Erthygl 5 ynghyd â gweddill y Rheoliad yn "gyfraith yr UE a gadwyd", gan ddefnyddio'r pŵer ym mharagraff 23(5) Atodlen 7.

Mae Erthygl 5 yn rhoi pŵer cyfyngedig i ddyfarnu masnachfreintiau'n uniongyrchol heb gystadleuaeth gaffael lawn. Darpariaeth sy'n benodol i'r sector hwn yw hon, sy'n adlewyrchu'r angen i sicrhau parhad trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd brys. Fodd bynnag, oherwydd y gydberthynas rhwng geiriad Erthygl 8 o Reoliad 1370/2007 (fel y'i diwygiwyd yn ddiweddar gan Reoliad (UE) 2016/2338) ac adran 3(3) Deddf yr UE (Ymadael) 2018, ni fydd Erthygl 5 yn gyfraith yr UE a gadwyd o dan adran 3 Deddf yr UE (Ymadael) 2018.

Mae Adran 3 Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn ymgorffori deddfwriaeth uniongyrchol yr UE cyn belled â'i bod yn weithredol (''operative'') yn union cyn y diwrnod ymadael. Tan 24 Rhagfyr 2017, roedd Erthygl 5 yn weithredol yn unol ag ystyr Deddf yr UE (Ymadael) 2018, ond nid oes gorfodaeth ar aelod-wladwriaethau i gydymffurfio'n llawn â'i thelerau tan 3 Rhagfyr 2019. Fodd bynnag, yn sgil y diwygiad i Reoliad 1370/2007 a ddaeth i rym ar 24 Rhagfyr 2017, newidiwyd geiriad y ddarpariaeth drosiannol berthnasol yn Erthygl 8(2), gan ddarparu y dylai Erthygl 5 ond bod yn gymwys (''apply'') o 3 Rhagfyr 2019. Ni fydd Erthygl 5 felly yn weithredol yn unol ag ystyr adran 3 Deddf Ymadael â'r UE ar y diwrnod ymadael.

Fodd bynnag, mae Erthygl 8(2) yn parhau i roi'r rhwymedigaeth ar awdurdodau cymwys i gydymffurfio'n raddol ag Erthygl 5 ac y caiff y ddarpariaeth "weithredol" ei chadw'n ôl mewn cyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael. Mae hyn yn creu bwlch yn y ddeddfwriaeth gan greu ansicrwydd cyfreithiol, gan y bydd gofyn i awdurdodau cymwys weithio i ateb gofynion nad ydynt wedi'u nodi yn ddeddfwriaeth. Felly. fe'i ystyrir yn briodol arbed Erthygl 5 i sicrhau bod Rheoliad 1370/2007 yn parhau i weithio'n effeithiol ac i gael gwared ar yr ansicrwydd hwn. Fel y nodwyd uchod, gwneir hyn trwy arbed Erthygl 5 fel "cyfraith yr UE a gadwyd" o dan adran 23(6) a pharagraff 23(3) a (5) Atodlen 7 Deddf Ymadael yr UE.

Mae'r offeryn hefyd yn cywiro diffygion technegol yn Erthygl 5 (fel cyfraith yr UE a gadwyd) o dan adran 8(1).

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r diwygio, ac nid yw sylwedd y diwygiadau'n sensitif yn wleidyddol.

Fodd bynnag, ceir pryderon sylweddol ynghylch y trywydd y mae Llywodraeth y DU wedi'i fabwysiadu o dan **Reoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019** ynghyd â'r offeryn statudol cysylltiedig, gan gynnwys **Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.**

Serch hynny, rydym yn sylweddoli bod angen sicrhau bod y llyfr statud yn weithredol ar y diwrnod ymadael, ac yn cydnabod bod y cywiriadau i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn masnachfraint y rheilffyrdd a sefydlwyd gan yr OS hwn yn hanfodol er mwyn i'r gwasanaethau rheilffyrdd ar draws y DU allu parhau.

At hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â swyddogion yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer rhedeg system cymorth gwladwriaethol ar gyfer y DU yn gyfan.

Mae'n glir i ni fodd bynnag bod y terfynau amser sydd ar ein gwarthaf yn cyfyngu ar sgôp unrhyw negodi ar y pwnc cymhleth hwn sydd wedi para heb ei ddatrys ers blynyddoedd lawer. Rydym am fod yn bragmatig yn hyn o beth er mwyn diogelu pobl a chaniatáu'r OS am nad oes gwahaniaeth o ran polisi ac y bydd yn lleddfu'n pryderon. Nid yw hyn yn rhagfarnu'n safbwynt am gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â chymorth gwladwriaethol.

UK MINISTERS ACTING IN DEVOLVED AREAS

125 - The Regulation (EC) No 1370/2007 (Public Service Obligations In Transport) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019

Laid in the UK Parliament: 28 January 2019

Sifting	
Subject to sifting in UK Parliament?	Yes
Procedure:	Proposed negative
Date of consideration by the House of Commons European Statutory Instruments Committee	12 February 2019
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	w/c 11 February 2019
Date sifting period ends in UK Parliament	18 February 2019
Written statement under SO 30C:	Paper 40
SICM under SO 30A (because amends primary legislation)	Not required
Scrutiny procedure	
Outcome of sifting	Not known
Procedure	Negative or Affirmative
Date of consideration by the Joint Committee on Statutory Instruments	Not known
Date of consideration by the House of Commons Statutory Instruments Committee	Not known
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known

Commentary

These Regulations are proposed to be made by the UK Government under sections 8(1) and 23(6) of, and paragraphs 21 and 23(3) and (5) of Schedule 7 to, the European Union (Withdrawal) Act 2018.

Regulation (EC) No 1370/2007 of the European Parliament and of the Council of 23 October 2007 on public passenger transport services by rail and by road ("Regulation 1370/2007") contains a number of provisions which would be deficient when the Regulation becomes retained EU law following the United Kingdom's departure from the European Union.

The purpose of these amendments is to correct these deficiencies. The instrument also includes transitional provisions and savings provisions to ensure the legislation operates effectively after exit day.

Given the Welsh Government and the UK Government have different views as to whether State aid and, consequently, Public Service Obligations in Transport, are devolved, Members may wish to consider writing to the Secondary Legislation Scrutiny Committee of the House of Lords to make observations.

Legal Advisers agree with the statement laid by the Welsh Government dated 14 March 2019 regarding the effect of these Regulations.

It is also worth noting how helpful the Counsel General's letter to the Committee dated 8 March 2019 has been in setting out the particularly complex status of Public Service Obligations legislation.

The above summary and the content of the Explanatory Memorandum to these Regulations confirm their effect and the extent to which these Regulations would enact new policy in devolved areas.

Legal Advisers draw the Committee's attention to the following issues in relation to paragraph 8 of the Memorandum on the European Union (Withdrawal) Bill and the Establishment of Common Frameworks:

Public Services Obligations legislation links very closely to State aid legislation. As the Committee is aware, there have been recent disagreements between the Welsh Government and the UK Government as to whether State aid is devolved. Given that Public Services Obligations legislation links so closely with State aid, it is no surprise that similar disagreement arises in respect of these Regulations.

We note the Welsh Government has nevertheless consented to the UK Government making these Regulations, taking a pragmatic approach to ensure that the law and rail services operate effectively on exit, with discussions continuing around developing a Memorandum of Understanding in this area of law.

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/KS/0051/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@cynulliad.cymru

8 Mawrth 2019

Annwyl Mick

Yn dilyn fy llythyr ar 25 Ionawr am ymateb Gweinidogion Cymru pan osodwyd y Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) gan Lywodraeth y DU yn Senedd y DU, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am safbwynt Llywodraeth Cymru o ran yr Offeryn Statudol cysylltiedig: **Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** ('OS y PSO').

Fel y gwyddoch, gosodwyd **Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â'r UE) 2019** gan yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Senedd y DU ar 21 Ionawr. Yn ein barn ni, nid yw cymorth gwladwriaethol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ac o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, rydym yn credu y dylid bod wedi gofyn i Weinidogion Cymru am eu caniatâd cyn gosod yr offeryn. Hefyd, rydym yn siomedig nad yw'r rheoliadau, fel y maent wedi eu gosod, yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau drwy gydsyniad rhwng y naill a'r llall ac nad ydynt yn darparu trefniant Cymorth Gwladwriaethol sydd wir yn eiddo i bob un o'r pedair Llywodraeth yn y DU.

Mae ein barn am gymorth gwladwriaethol yn effeithio ar OS y PSO. Mae Rheoliad 1370/2007 yn pennu'r amodau ar gyfer digolledu gweithredwyr rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus (PSO) am y costau y maent yn eu hysgwyddo wrth gynnal eu rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Rheoliad 1370 yn darparu ar gyfer eithrio'r sector rhag y rheolau cyffredinol ar gymorth gwladwriaethol (gwasanaethau trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd), gan ryddhau'r awdurdodau cyhoeddus rhag gorfod cael cymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol ymlaen llaw gan y Comisiwn bob tro y telir iawndal i weithredwr gwasanaeth cyhoeddus, cyn belled â bod yr iawndal yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad 1370/2007.

Serch hynny, rydym yn sylweddoli bod angen sicrhau bod y llyfr statud yn weithredol ar y diwrnod ymadael, ac yn cydnabod bod y cywiriadau i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i drefn masnachfraint y rheilffyrdd a sefydlwyd gan yr OS hwn yn hanfodol er mwyn i'r gwasanaethau rheilffyrdd ar draws y DU allu parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

At hynny, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â swyddogion yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer rhedeg system cymorth gwladwriaethol ar gyfer y DU yn gyfan.

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi'n hysbysu ni y bu'n rhaid gosod yr OS ar gyfer sifftio ar 28 Ionawr er mwyn cael digon o amser iddo ddod i rym ar y diwrnod ymadael pe bai'r pwyllgorau sifftio yn penderfynu y dylai'r OS ddilyn y drefn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na chaiff yr offeryn ei wneud heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.

Mae'n glir i ni fod y terfynau amser eithriadol sydd ar ein gwarthaf yn cyfyngu ar sgôp unrhyw negodi ar y pwnc cymhleth hwn sydd wedi para heb ei ddatrys ers blynyddoedd lawer. Rydym felly yn fodlon bod yn bragmatig yn hyn o beth er mwyn diogelu pobl a chaniatáu'r OS yn ei gyfanrwydd am nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhyngom ac y byddai'n lleddfu pryderon yr Awdurdodau Datganoledig. Nid yw hyn, serch hynny, yn rhagfarnu'n safbwynt am gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â chymorth gwladwriaethol.

Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, Andrew Jones AS, sy'n gyfrifol am yr OS hwn, i gyfleu'r farn hon a bydd trafodaethau'n para rhwng y ddwy weinyddiaeth.

Byddwn yn hysbysu Aelodau'r Cynulliad am hyn trwy ddatganiad ysgrifenedig cyn hir.

Yn gywir

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Mark Drakeford AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dai Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd

20 Mawrth 2019

Annwyl David,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynghylch rôl y Cynulliad wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Rwyf wedi nodi'ch cefnogaeth i'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rwyf hefyd wedi nodi'ch pryder ynghylch a oedd Offerynnau Statudol y DU yn creu polisïau newydd, y defnydd o pwerau cydredol a'r broses cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol.

Amgaeaf y llythyr a anfonais at y Pwyllgor mewn ymateb i'r adroddiad cynnydd, sy'n nodi safbwynt y llywodraeth ar y pwyntiau a godwyd yn eich llythyr.

Cofion gorau,

Mark

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Llywydd

20 Mawrth 2019

Diwygio'r Cynulliad: Ariannu'r Comisiwn Etholiadol a'i atebolrwydd ar gyfer etholiadau datganoledig

Annwyl Elin

Yn dilyn eich gohebiaeth ym mis Rhagfyr 2018, a'n cyfarfod ym mis Ionawr, trafododd y pwyllgor y posibilrwydd o edrych ar y drefn o ran ariannu'r Comisiwn Etholiadol a'i atebolrwydd ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth ystyried ein blaenraglen waith yn gyffredinol, penderfynodd y pwyllgor beidio â gwneud hynny oherwydd ei lwyth gwaith deddfwriaethol trwm a'r gwaith polisi arall a gynlluniwyd.

Diolch am godi'r materion hyn gyda'r pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

John

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Copi at: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/05038/19

Mick Antoniw AM
Chair
Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
SeneddCLA@assembly.wales

20 March 2019

Dear Mick

Thank you for your letter of 6 February on The State Aid (EU Exit) Regulations 2019, and for your support in this matter.

I have noted that you wrote to the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee, the House of Lords Constitution Committee, and the House of Commons Public Administration and Constitutional Affairs Committee. Thank you for sharing the response you received with us. This seems helpful and I await to hear the UK Government's response.

You requested that I provide the Committee with an update when I am in a position to do so. You will have seen that there have been two further UK EU Exit SIs which are connected to the wider State aid issue, and you have received letters about these SIs.

As you have seen, our consent was not sought for The State Aid (Agriculture and Fisheries) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019. For this SI we adopted the same approach as for The State Aid (EU Exit) Regulations 2019. The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs wrote to the Secretary of State setting out our position regarding State aid, and our disappointment that the systems established under the SI did not fully reflect devolution.

Our consent was sought for The Regulation (EC) No 1370/2007 (Public Service Obligations in Transport) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019. The substance of this SI is the provision of public transport, but it is intrinsically linked to the wider State aid regime. After much consideration, we gave consent to this SI on the basis that it was primarily concerned with public transport, but also took the opportunity to reiterate our position on the wider issues around the administration of State aid. My letter on this SI set out the basis on which consent was given.

The Minister for Economy and Transport has since received a letter from the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy regarding State aid. In this letter he

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

reiterates that State aid is reserved, but acknowledges that there is a difference of opinion on whether the regulation of State aid is reserved.

The letter also notes that there is no difference of opinion between our administrations on the current policy adopted in relation to State aid, and we concur with that.

The letter also gave further reassurance that, in bringing the EU State aid rules into UK law through the Regulations under the EU (Withdrawal) Act 2018, the substantive rules will be frozen as they stand at exit day. The powers currently held by the European Commission to make and amend block exemption and de minimis regulations will not be brought into the domestic regime. There is limited scope, therefore, to depart from mirroring the EU State aid regime using powers in the Regulations.

The letter also committed that, in the longer term, the UK Government will work closely with the Welsh Government and the other devolved administrations on the development of State aid policy. This includes continued engagement between officials and facilitating input on policy development, though this work will be strongly influenced by the negotiations with the EU on the Future Economic Partnership. The letter also restated the aim of concluding a Memorandum of Understanding on State aid.

Therefore, we are reassured that there is still scope to resolve the ongoing dispute between our administrations to reflect devolution in the medium to longer term, and will continue working with the UK Government towards that end.

Yours sincerely

Jeremy Miles AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@cynulliad.cymru

21 Mawrth 2019

Annwyl Mick

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Rydym yn nodi'r ymholiadau yn eich llythyr, dyddiedig 1 Mawrth 2019. Ystyriwn eu bod wedi eu trin yn y llythyr diweddar i chi gan y Prif Weinidog, dyddiedig 11 Mawrth 2019.

Yn gywir

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

PWYLLGOR MATERION CYFANSODDIADOL A DEDDFWRIAETHOL

BIL SENEDD AC ETHOLIADAU

Ystyriaeth Cyfnod 1

Sylwadau gan yr Athro Keith Bush CF

Cyflwyniad

1. Mae'r awdur yn Athro Anrhydeddus yn ysgol gyfraith Prifysgol Abertawe[1]. Mae'n arbenigo mewn pynciau cyfraith gyhoeddus ac yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ystyriaeth Cyfnod 1 o Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Rhoddir crynodeb isod o'i sylwadau ar agweddau cyfreithiol a chyfansoddiadol darpariaethau'r Bil. Bydd yn medru manylu arnynt pe dymunai'r Pwyllgor iddo wneud hynny.

Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2. Nid oes unrhyw reswm *cyfreithiol* pam fod angen newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r enw presennol yn cyflawni'r swyddogaeth o ddarparu enw clir a diamwys i'r sefydliad. Ond derbynnir bod yna resymau eraill a all gyfiawnhau newid yn yr enw, sef:
   - Tanlinellu'r gwahaniaeth o ran strwythur a swyddogaethau rhwng y sefydliad presennol a'r corff corfforaethol unedig, gyda swyddogaethau gweithredol yn unig (y "Cynulliad"), a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;
   - Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o natur a gwaith y sefydliad, sydd bellach (ers i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym) yn gorff deddfwriaethol yn debyg, o ran ei natur, i Senedd San Steffan a Senedd yr Alban;
   - Adlewyrchu, trwy'r enw newydd, statws dyrchafedig yr iaith Gymraeg newn Cymru ddatganoledig.

3. Rhaid cydnabod nad yw'r tri amcan uchod o angenrheidrwydd yn hollol gyson a'i gilydd. Mae bron pawb yng Nghymru a thu hwnt yn deall natur "Parliament". Mae'r enw hwnnw'n cydfynd ag enwau cyrff sy'n arfer swyddogaethau tebyg ar lefel y Deyrnas Unedig, yn yr Alban ac yng ngwledydd eraill o fewn y Gymanwlad. Ond mae "Senedd" yn air am "Parliament" mewn iaith sy'n cael ei deall, ar hyn o bryd, gan dim ond tua un allan o bump o boblogaeth Cymru.

[1] Gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth am yr awdur.

4. Wrth gwrs, byddai defnydd o'r enw "Senedd" fel y ffordd arferol o gyfeirio at y sefydliad, yn y ddwy iaith, yn dod yn gyfarwydd o fewn amser. Erbyn hyn does dim rheswm i gredu bod gan boblogaeth di-Wyddeleg Iwerddon unrhyw drafferth i ddeall natur a swyddogaeth yr "Oireachtas".

5. **Ond nid yw'r awdur yn credu bod mabwysiadu'r enw "Senedd", ar ben ei hun, yn synhwyrol yn achos Cymru. Mae'n credu'n gryf mai "Senedd Cymru" dylai'r enw fod.**

6. Hyd yn oed yn achos Iwerddon, enwau swyddogol (o dan gyfansoddiad Iwerddon) dau dy'r Oireachtas yw "Dáil Éireann" a "Seanad Éireann". Mae hynny er gwaethaf y ffaith mai dim ond un ddeddfwrfa sy'n gweithredu yng ngweriniaeth Iwerddon a bod gair Gwyddeleg hollol wahanol sef "Parlaimint" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer seneddau San Steffan, Holyrood a Stasbourg / Brwsel.

7. Ac o fewn systemau ffederal neu led-ffederal, lle bo deddfwrfeydd yn gweithredu ochr yn ochr a'i gilydd, ar lefelau gwahanol, yr arferiad yw defnyddio terminoleg sy'n gwahanu'n glir rhyngddynt. Gall hynny fod ar sail defnyddio termau hollol wahanol. Yng Nghanada ceir Senedd Canada ond Cynulliad Deddfwriaethol Ontario ac Assemblée Nationale Québec. Yn yr Almaen ceir y Deutsche Bundestag a'r Bayerischer Landtag. Neu gellid defnyddio'r un enw ond gan ddynodi awdurdodaeth ddaearyddol y ddeddfwrfa. Yn Awstralia ceir Senedd Awstralia a Senedd Queensland, Senedd Tasmania, ac yn y blaen.

8. Yn achos y Deyrnas Unedig mae'r angen i addasu defnydd o'r term "Senedd" wrth gyfeirio at sefydliad gwahanol i senedd San Steffan yn cael ei atgyfnerthu gan y ffaith mai senedd San Steffan oedd yr unig un (heblaw am gyfnod Senedd Gogledd Iwerddon rhwng 1922 a 1972) a oedd yn bodoli o fewn y wladwriaeth cyn 1999. Mae cyfeiriadau at "y Senedd" yn Gymraeg yn cael eu cymryd yn naturiol, ar hyn o bryd, fel cyfeiriadau at senedd San Steffan. Y senedd honno, wrth gwrs, yw'r unig senedd ar gyfer Lloegr o hyd. Bydd yr arfer o gyfeirio, yn y cyfryngau ac mewn dogfennau cyfreithiol, gweinyddol a masnachol, at senedd y Deyrnas Unedig fel "y Senedd" yn debyg o barhau. Bydd angen, yn ymarferol, cyfeirio'n aml yn Gymraeg, ar lafar ac mewn ysgrifen, at "Senedd Cymru". Os daw "Senedd Cymru", mewn gwirionedd, yn ffordd arferol o gyfeirio at y sefydliad, o leiaf mewn un iaith, byddai eglurdeb a chysondeb yn cael eu cryfhau pe bai hwnnw hefyd yn enw cyfreithiol arno

9. Ar y llaw arall, nid yw'r awdur yn gweld unrhyw angen *ymarferol*, os bydd "Senedd Cymru" yn cael ei fabwysiadu fel enw swyddogol y sefydliad, i awdurdodi'n swyddogol defnydd o'r term amgen "Welsh Parliament". Diau y bydd cyfeiriadau anffurfiol mynych yn cael eu gwneud yn y cyfryngau ac yn y blaen at "Senedd Cymru (the Welsh parliament)". Ond byddai rhoi statws cyfreithiol i'r enw "Welsh Parliament" yn gwanháu effaith pwysleisio safle'r Gymraeg fel yr iaith genedlaethol hanesyddol, os dyna yw nod pennaf y newid enw. Petai teimlad cryf na ddylai enw uniaith Gymraeg gael ei mabwysiadu byddai'n fwy rhesymegol i fabwysiadu, yn syml, enw dwyieithog, gyda "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" yn cael eu defnyddio'n gyson yn y ddwy iaith. Mae'r awdur yn pwysleisio, fodd bynnag, nad yw defnydd o "Oireachtas", "Dáil Éireann" a "Seanad Éireann" (nac o "Taoiseach" ar gyfer prif weinidog) fel petaent yn achosi unrhyw problemau ymarferol yn Iwerddon.

10. Yn naturiol, byddai "y Senedd" neu "the Senedd" yn dal i gael eu defnyddio, yn ymarferol, mewn llawer iawn o gyd-destunau, fel y defnyddir "the Parliament" yng nghyd-destun gweithdrefnau mewnol Senedd yr Alban. Er enghraifft, mae Rheolau Sefydlog y senedd honno'n cychwyn trwy ddatgan bod Senedd yr Alban wedi'i sefydlu gan Ddeddf yr Alban 1998 ond wedyn yn mynd ymlaen i gyfeirio'n gyson at "the Parliament".

11. Yn wir, ni fyddai angen defnyddio'r ymadrodd "Senedd Cymru" llawn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, unwaith y byddai enw newydd y corff wedi'i bennu (gweler Atodlen 2 isod). Mae'r Deddf ar hyn o bryd yn cychwyn trwy bennu enw llawn y sefydliad ("National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru") ond wedyn yn cyfeirio'n unig at "the Assembly".

12. Pe byddai "Senedd Cymru" yn cael ei fabwysiadu byddai enwau'r swyddi, cyrff a deddfiadau sy'n cynnwys enw'r sefydliad yn dilyn yr un patrwm yn naturiol:

- Deddfau Senedd Cymru / Acts of Senedd Cymru;
- Aelodau Senedd Cymru (ASC) / Members of Senedd Cymru (MSC);
- Clerc Senedd Cymru / Clerk of Senedd Cymru;
- Comisiwn Senedd Cymru / Senedd Cymru Commission;
- Bwrdd Taliadau Senedd Cymru / Senedd Cymru Remuneration Board;

- Comisiydd Safonau Senedd Cymru / Senedd Cymru Commissioner for Standards.

13. Mae Rhan 2 o'r Bil yn cymryd, ar hyn o bryd, ffurf darpariaethau deddfwriaethol sy'n sefyll ar eu traed ei hun yn hytrach na diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er bod yr ail dull o weithredu yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r diwygiadau amrywiol a wneir gan Atodlen 1 i'r Bil er mwyn newid y cyfeiriadau lluosog yn Neddf 2006 at "Assembly" ac yn y blaen.

14. Mae'r awdur yn teimlo y byddai'n well, yn hytrach, i ddiwygio adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarllen:

> "(1) There is to be an Assembly for Wales to be known as Senedd Cymru (referred to in this Act as "the Senedd")."

(Byddai'r diwygiad hwnnw yn dod i rym ar ddiwedd y Cynulliad presennol.)

15. Rhoddir enghreifftiau o sut y byddai darpariaethau eraill yn Neddf 2006 yn newid yn Atodlen 1 i'r papur hwn

16. Mae angen hefyd ddiwygio, er mwyn eglurdeb ac effeithiorwydd, adran 150A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n delio gydag effaith newid enwau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Comisiwn a Deddfau'r Cynulliad. Gellid diddymu is-adran (1) yn gyfan gwbl gan gadw is-adran (2) ond gan ei newid i "... is to be read as, or including, a reference to Senedd Cymru, the Senedd Cymru Commission or to an Act of Senedd Cymru (as the case may be)."

Etholiadau

17. Mater o bolisi yw gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer Senedd Cymru o 18 i 16 ac nid yw'r awdur yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau arno.

Anghymhwyso

18. Mae'r awdur yn cymeradwyo'r newidiadau yn y drefn anghymwyso a fwriedir o dan Ran 4 o'r Bil. Maent yn adlewyrchu tystiolaeth a roddodd i Bwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad yn 2014.

19. Awgrymir cadw rhestr o swyddi sydd, am resymau cyfansoddiadol, yn sylfaenol angydnaws â bod yn Aelod, ac felly'n anghymwyso rhag bod yn ymgeisydd (tra bod swyddi eraill yn caniatáu i rywun sefyll fel ymgeisydd ond yn eu gorfodi i gael gwared ar y swydd pe byddent yn cael eu hethol).

20. Mae'r drefn honno'n un synhwyrol a rhesymegol. Ond bydd angen bod yn ofalus i sicrhau cysondeb yn y dosraniad o swyddi. Nodir, er enghraifft, nad yw swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru'n ymddangos, ar hyn o bryd, yn y rhestr gyntaf er ei bod yn un sy'n gyfansoddiadol anghydnaws ag ymgeisyddiaeth i fod yn Aelod.

Amrywiol

21. Amseriad y cyfarfod cyntaf

Mae'r awdur yn cytuno y dylai'r cyfnod rhwng etholiad a chyfarfod cyntaf y Senedd fod yn ddim mwy na phedwar diwrnod ar ddeg yn hytrach na saith diwrnod. Mae angen cael digon o amser i'r pleidiau trafod, ym mhlith ei gilydd, pwy bydd yn ffurfio llywodraeth ac, yn sgil hynny, pwy ddylai dal swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

22. Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau

Mae ehangder y pwerau ychwanegol a fyddai'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru gan adran 36 yn ymddangos ei fod yn mynd tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei weld yn gyfansoddiadol dderbyniol. Dylai newidiadau pwysig i'r gyfraith, yn enwedig mewn perthynas â chyfraith etholiadol, fod yn agored i graffu deddfwriaethol llawn. Gall gweithdrefnau deddfwriaethol fod yn symlach, wrth gwrs, yn achos diwygiadau technegol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ond dylid cadw rheolaeth drostynt, yn y pen draw, yn nwylo'r ddeddfwrfa.

23. Comisiwn y Senedd

Bydd adran 37 yn dileu unrhyw amheuaeth am sail cyfreithiol gweithgarwch sydd, wrth gwrs, eisoes yn digwydd i raddau a, thrwy hynny, yn rhyddhau'r Comisiwn i ddatblygu'r gweithgarwch hynny, o fewn ffiniau synhwyrol, fel bydd angen.

Keith Bush CF

Mawrth 2019

ATODIAD 2

Enghreifftiau o sut y byddai darpariaethau eraill yn Neddf 2006 yn newid yn unol ag awgrym yr awdur:

- Adran 1(3):

  "(3) Members of Senedd Cymru (referred to in this Act as "Senedd Members")...."

- Adran 26(1):

  "(1) The Senedd Commission must appoint a person to be Clerk of Senedd Cymru or Clerc Senedd Cymru (referred to in this Act as "the clerk")"

- Adran 27(1):

  "(1) There is to be a body corporate to be known as the Senedd Cymru Commission or Comisiwn Senedd Cymru.

- Adran 107:

  "The Senedd may make laws, to be known as Acts of Senedd Cymru or Deddfau Senedd Cymru (referred to in this Act as "Acts of the Senedd.").

- Adran 1(2):

  "(2) The Senedd is to consist of –

  (a) one member for each Senedd constituency (referred to in this Act as "Senedd constituency members"), and

  (b) members for each Senedd Assrembly electoral region (referred to in this Act as "Senedd regional members").

ATODIAD 2

Mae Keith Bush CF LLM (Llundain) yn fargyfreithiwr ac yn Athro Anrhydeddus yn ysgol gyfraith Hillary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hefyd yn Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg, yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru, yn aelod o bwyllgor Cyfraith Gyhoeddus Cymru ac yn Drysorydd Sefydliad Cymru'r Gyfraith.

Ar ôl gweithio fel Bargyfreithiwr yng Nghaerdydd am dros 20 mlynedd, ymunodd â gwasanaeth cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn 1999, lle daeth yn Gwnsler Deddfwriaethol, gan arwain y tîm cyfreithiol a weithiodd ar nifer o Filiau'n ymwneud â Chymru, gan gynnwys yr un a ddaeth yn Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O 2007 tan 2012, ef oedd prif gynghorydd cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae ef wedi cyfrannu at y *Statute Law Review*, y *Cambrian Law Review*, *Wales Legal Journal*, *Journal of the Welsh Legal History Society* a'r *New Law Journal* ac mae'n darlithio'n aml ar faterion cyfraith gyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Modiwl ar gyfer dau fodiwl israddedig arloesol ym Mhrifysgol Abertawe ar Ddeddfwriaeth a'r Gyfraith Llywodraethiant Aml-lefel yn ogystal â chyfrannu at addysgu cyfraith gyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n awdur gwaith iaith Gymraeg ar gyfraith gyhoeddus- *'Sylfeini'r Gyfraith Gyhoeddus'* a gomisiynwyd gan Brifysgol Bangor a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae ei ddiddordebau addysgu ac ymchwil yn cynnwys cyfraith datganoli, gwladwriaethau ffederal a lled-ffederal a strwythurau cyfansoddiadol annhiriogaethol a hawliau cyfreithiol grwpiau ieithyddol a diwylliannol